

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 473 • Ionawr 2017 • 50c

Meddwl am Ymarfer Corff?

A hithau'n flwyddyn newydd eto, wedi gloddesta'r Nadolig, mae papurau newydd a chylchgronau yn rhoi cryn sylw i fwyta'n iach a chadw'n heini, gan ein annog i wneud pob math o ymarfer corff yn y flwyddyn newydd. Efallai fod rhai o ddarllenwyr y Llais wedi gwneud addunedau i gadw ychydig yn fwy heini yn 2017.

Ac mae ymarfer corff yn un o themâu Llais Ogwan y mis yma hefyd. Yn y rhifyn hwn cewch ddarllen am gyfleuster hyfforddi gymnasteg newydd sbon i blant a phobl ifanc sydd wedi agor yn y Dyffryn ddechrau'r mis.

Hefyd, yn ogystal â'r newyddion chwaraeon arferol ar y dudalen gefn, yno cewch ddarllen am Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen yn clywed am hanes pêl-droed yn Nyffryn Ogwen, ac mae hyd yn oed Chwilair y mis yma wedi ei seilio ar ymarfer corff!

Ond heb wirfoddolwyr a hyfforddwyr galluog ac ymroddedig, anodd fyddai cynnal unrhyw weithgareddau chwaraeon, a rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant un o'n hyfforddwyr ifanc, sef Elan Gilford, disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Y Gymraeg yn y byd digidol – sut gallwch chi helpu

Mae Shân Pritchard, myfyrwraig ymchwil o Ddyffryn Ogwen, wedi derbyn Ysgoloriaeth Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth (KESS) trwy Brifysgol Bangor i edrych ar sut mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar lwyfannau digidol. Y cam nesaf yn ymchwil Shân yw casglu data drwy holiadur. Mae'r holiadur yn gofyn ynglŷn â defnydd pobl o dechnoleg yn gyffredinol a'u profiadau neu

agweddau tuag at dechnoleg cyfrwng Cymraeg. Mae croeso i unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd ac sydd dros 11 mlwydd oed i gwblhau'r holiadur, sydd i'w gael ar-lein neu ar bapur.

Byddai Shân yn gwerthfawrogi cymorth darllenwyr y Llais gyda'r gwaith ymchwil pwysig yma, a gallwch ddarllen mwy am y gwaith, a darllen sut i lenwi'r holiadur, ar dudalen 17.

Elan Môn yn ennill gwobrau lu

Ddiwedd Tachwedd mynychodd Elan seremoni wobrwyo UK Sport yn Wembley ar gyfer y hyfforddwyr chwaraeon gorau gan fod Elan wedi cael ei henwebu am wobwr goffa Heather Crouch i hyfforddwr ifanc y flwyddyn. Roedd dros 1500 o bobl ifanc wedi gwneud cais am y wobwr ac roedd Elan wedi dod i'r brig fel un o'r tri yn y rownd derfynol. Cafodd noson fythgofiadwy ymysg sêr a hyfforddwyr chwaraeon gorau Prydain. Cafodd ei llongyfarch gan y Dywysoges Anne, Cyfarwyddwr Chwaraeon yr Alban ac Eddie Van Hoof – a gafodd ei goroni fel hyfforddwr y

flwyddyn ar ôl ei lwyddiant yng ngemau Olympaidd Rio! Mae Elan wedi cael ei gwobrwyo nifer o weithiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae Ysgol Dyffryn Ogwen, a'r ardal gyfan, yn falch iawn o'i llwyddiannau.

Dechrau mis Rhagfyr roedd Elan mewn seremoni arall, yng Nghaerdydd y tro yma, am ei bod wedi cael ei henwebu ar gyfer un o'r 'Diana Awards' – gwobrau er cof am y Dywysoges Diana i bobl ifanc sy'n fodelau rôl ardderchog ac sydd wedi ysbrydoli a newid bywydau pobl ifanc.

Llongyfarchiadau mawr i ti, Elan, a dymuniadau gorau am y dyfodol.

UK Coaching Awards

Raising the profile of coaches at all levels

Elan yn y Seremoni Wobrwyo yn Llundain

Dymuna Llais Ogwan Flwyddyn Newydd Dda iawn i'w holl ddarllenwyr

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592

fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH

☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Dewi A. Morgan.

Golygir mis Chwefror gan

Walter a Menai Williams, 14 Erw Las,

Bethesda, LL57 3NN. (01248 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn

dydd Mercher, 1 Chwefror

os gwelwch yn dda.

Plygu **nos Iau, 16 Chwefror**,

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan

Bwyllgor Llais Ogwan

@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,

elgangriffiths@btinternet.com

Argraffwyd gan y Lolfa

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Dyddiadur y Dyffryn

Ionawr

20 PANTO Bali Wali Honco yn

Neuadd Ogwen am 7.

21 PANTO Bali Wali Honco yn

Neuadd Ogwen am 2.

25 Cyfarfod Chwarter Annibynwyr

Gogledd Arfon. Capel Bethlehem

Talybont am 7.

30 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.

2.30 – 4.00.

31 Cangen Plaid Cymru Dyffryn

Ogwen. Cefnfaes am 7.

Chwefror

02 Sefydliad y Merched Carneddi.

Cenfaes am 7.

06 Merched y Wawr Tregarth. "Caws o

Moelyci". Festri Shiloh am 7.30.

09 Cymdeithas Jerusalem. Gareth

Roberts. Y Festri am 7.

11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.

9.30 – 1.30.

15 Cymd. Hanes D. Ogwen. Rhys

Mwyn. Festri Jerusalem am 7.

16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am

6.45.

25 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.

10.00 – 12.00.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn

swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Spar, Bethesda

Siop y Post, Rachub

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Ionawr

£30.00 (143) Joy Evans, Llwyn

Onn, Talybont.

£20.00 (131) Mary Jones, Erw Las,

Bethesda.

£10.00 (182) Dafydd Morris,

Garnedd Uchaf, Bethesda.

£5.00 (134) Brenda Wyn Jones,

Pen y Bronnydd, Tregarth.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r

gloch a hanner dydd

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

Rhoddion i’r Llais

- £5.00 Mrs. Doreen Jones, 15 Maes Coetmor, Bethesda.
- £10.00 Mr. Joe Evans, 10 Glan Ffrydlas, Bethesda, er cof am Ettie.
- £10.00 Er cof am Brinley a Marian Jones, 2 Rhes Coetmor, Bethesda, oddi wrth eu plant.
- £10.50 Mrs. Eurwen Griffiths, Rhes Mostyn, Bethesda.
- £40.00 Di-enw, Bethesda.
- £3.50 Di-enw, Llandygai.
- £10.00 Mrs Mair Jones, Windsor
- £10.00 Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon
- £10.00 Mr D W Thomas, Barrow in Furness
- £15.00 Mrs Nia Phillips, Southport - er cof am John Glyn a Phyllis Hughes
- £20.00 Mr Ken Jones, Edgware, Llundain

Diolch yn fawr.

LLYFRGELL BETHESDA

Yn sgil arolwg barn diweddar ar y patrwm oriau agor yn Llyfrgelloedd Gwynedd, mae yna ychydig o newidiadau wedi bod i’r oriau agor.

Gobeithiwn ein bod wedi gwrandao ar ein defnyddwyr er mwyn eich galluogi i ymweld â’ch Llyfrgell ar amser cyfleus i chi, yn cynnwys bod ar agor ar ôl amser gwaith arferol. Bydd yr oriau agor newydd yn weithredol o dechrau mis Ionawr.

Dyma oriau agor newydd Llyfrgell Bethesda:

- Llun 2 tan 6.30pm
- Mawrth 10am tan Hanner Dydd
- Mercher wedi cau
- Iau 2 tan 6pm
- Gwener 2 tan 5pm
- Sadwrn 10 tan 12.30pm

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Yn yr Ysbyty

Bu Colin Jeffreys, Llangoed, Nant Graen yn yr ysbyty’n ddiweddar – ond mae gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Un arall a fu’n yr ysbyty yw Gwyndaf Hughes (y Saer); mae yntau adref ac yn gwella erbyn hyn. Anfonwn ein cofion atynt.

Cydymdeimlwn

Cydymdeimlwn â Colin a Delyth Jeffreys, Llangoed, a’r teulu yn y brofedigaeth o golli modryb iddynt ym Mangor, sef Doris Williams. Magwyd Doris yn 17 Gernant cyn iddi briodi â Tommy (ambiwllans) flynyddoedd yn ôl.

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda ’r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur
Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan
Gwasanaeth ‘Archebu a Danfon’

Perllan Pantdreiniog

Ydych chi wedi sylwi bod coed afal yn tyfu ym Mhantdreiniog, ac yn drwm o ffrwythau yn yr hydref? Cawsom syniad i blannu ychydig mwy o goed a chreu perllan i’r gymuned!

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno inni blannu nifer o goed ffrwythau, a chafodd ymgynghoriad efo’r trigolion nad oes gwrthwynebiad i’r syniad.

Perllan bro fydd hon, i’w phlannu a chynnal gan bobl y pentref, ac mae’r ffrwythau hefyd i bawb sy’n cael ei demtio!

Mae plannu perllan yn dipyn o ffasiwn ar hyn o bryd, a gyda rheswm da – collwyd 60% o hen berllannau Prydain dros y 50 blynedd diwethaf. Nid yn unig y ffrwythau a gollir a thraddodiadau’r cymunedau o blannu a chynaeafu a’r ddealltwriaeth o le mae ein bwyd yn dod. Cewch hefyd adar yn nythu, pryfed a chwilod yn byw yn rhisgl y coed, ffyngau a chreaduriaid eraill yn cael budd o’r ffrwythau ar y llawr, blodau a gweiriau yn tyfu yn y glaswellt, a gloënnod byw yn cael neithdar o’r rheiny. Gyda llawer o’r planhigion ac anifeiliaid hyn yn colli eu cynefinoedd naturiol, mae’n ddealladwy fod pobl isio creu llefydd newydd iddyn nhw.

Ond nid yn unig planhigion ac anifeiliaid sy’n elwa o berllan. Gall ddod â budd i gymuned hefyd. Yn un peth, mae ffrwythau yn syth o’r coed gymaint yn fwy blasus na rhai o’r siop! Ac mae’n braf clywed sŵn gwenyn ym mlodau’r gwanwyn a gweld y ffrwythau’n tyfu drwy’r haf nes eu bod yn barod i gynaeafu yn yr hydref. Gyda pherllan yn rhan o dirwedd y gymuned, daw’r cysylltiad rhwng tymhorau a bwyd yn amlwg eto.

Byddwn yn trefnu digwyddiadau o gwmpas y plannu a’r cynhaeaf, ac os oes gennych chi syniadau am addysg neu awydd creu celf a llên o gwmpas coed ffrwythau, neu sgiliau trefnu diwrnod cymunedol, neu eich bod yn gallu meddwl am ffyrdd i wneud perllan fach yn bleser i bawb ei mwynhau, byddai’n braf eich cael chi efo ni. Mae croeso cynnes i bawb sy’n licio cael ei ddwylo yn fudr neu sydd am fod yn rhan o grŵp bach sy’n cyfarfod bob hyn a hyn. Nifer bach iawn o goed byddwn yn eu plannu yn y lle cyntaf, ac felly ni fydd y gwaith yn rhy galed!. Beth am i’ch teulu, neu’ch stryd, neu’ch ysgol, noddi coeden ac edrych ar ei hôl hi?

Os ‘dach chi eisiau gwybod mwy, ffoniwch Judith ar 602672 i gael sgwrs.



I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig
Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW
☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Cian Iolen Rhys, 5, Garneddwen ar gael ei wobrwyo gyda Tarian DLO gan Fand Pres Llanrug am fod y chwaraewr mwyaf addawol yn y band iau.



Cian gyda Tarian DLO

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Danial Roberts, 16 Glanogwen, ar lwyddo “gyda rhagoriaeth” yn ei arholiad Piano, Gradd Un, yn ddiweddar. Hyfforddir Danial gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

Cyfarchion Pen-blwydd

Cyfarchion pen-blwydd i Siôn Ifan yn 21 oed ar Ionawr 18 gan Dad, Mam a Llion Rhys.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i’r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith roedd:- Mrs. Bethan Puw, Ffordd Ffrydlas; Mr. J. O. Roberts, Pen y Bryn; Mr. Ivor Williams, Abercaseg; Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg; Miss Dilys Williams, Plas Ogwen; Mrs. R. Williams, Dolgoch; Mrs. M. Hughes, Golygfa Ffrancon.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:- Mr. a Mrs. Colin Williams a’r teulu, Adwy’r Nant; Mr. a Mrs. Kevin Williams, a’r teulu, Erw Las; Mr. David Evans, Ffordd Ffrydlas, yn dilyn colli tad, taid, hen daid a thad yng nghyfraith,

sef y diweddar Mr. Richard Williams, Ciltrefnus.

Mr. a Mrs. Irfon Hughes, a’r teulu, Erw Las, wedi i Lilian golli ei nith yn y Gaerwen ym mis Rhagfyr.

Marw

Mrs. Eleanor Morris
Ar 10 Rhagfyr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Eleanor Morris, Bigil, Rhos y Nant. Priod hoff Mr. Griffith Charles Morris, mam Enid, Huw, Ceri a’r diweddar Menna, a mam yng nghyfraith Dafydd, Siân, Sam a Phil. Roedd yn nain annwyl i Catrin, Becca, Dafydd, Elen, Owen, Harri, Hanna, Nansi, Nest, Geraint a Mairi.
Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 16 Rhagfyr, yn Amlosgfa Bangor, gyda Mr. Gwilym Williams yn arwain y gwasanaeth a Mr. Iwan Williams wrth yr organ. Cafwyd teyrnged i’w fam gan Huw. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Mrs Eileen Morley Evans
Yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Rhagfyr, bu farw Mrs. Eileen Morley Evans, 1 Rhos y Nant, yn 90 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Emlyn Evans, mam a mam yng nghyfraith Dafydd Meurig a Louise a Morfudd Wyn a Dewi. Roedd yn nain hoffus i Dewi, Llinos, Siôn, Rhian, Sara ac Ioan, a hefyd yn hen nain i ddau, sef Owain Daniel a Lo-Rose.
Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am ei bywyd yn Amlosgfa Bangor fore Sadwrn, 7 Ionawr, dan arweiniad y Parchg. Ddr. Hugh John Hughes, ac fe gafwyd atgofion am ei fam gan Dafydd Meurig. Cydymdeimlwn â’r teulu oll yn eu profedigaeth.

Diolch

Dymuna Griff, Enid, Huw, Ceri a holl deulu’r diweddar Eleanor Morris ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod,

mam a nain annwyl. Diolch i ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a’u cefnogaeth. Diolch i Gwilym Williams am ei sensitifrwydd yn arwain y gwasanaeth angladdol ac i Iwan Williams wrth yr organ. Diolch i staff Meddygfa Bethesda ac Ysbyty Gwynedd am eu gofal ohoni ac i gwmni Stephen Jones am y trefniadau.

Gorffwysfan

Ar 6 Rhagfyr, aeth yr aelodau i Ysgol Dyffryn Ogwen i fwynhau te prynhawn ac adloniant. Cafwyd croeso gan y pennaeth, Mr. Alun Llwyd, ac aelodau’r staff. Cafwyd te ardderchog a’r disgyblion wrth eu bodd yn gweini arnom. Wedyn cafwyd adloniant gan Gôr yr ysgol dan arweiniad Mr. Hefin Evans, gyda Mr. Alun Llwyd yn cyfeilio. Diolchwyd i bawb am brynhawn ardderchog gan Mr. Neville Hughes.
Cafwyd ein cinio Nadolig yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda ar ddydd Mercher, 7 Rhagfyr.
Yn dilyn gair o weddi gan Mrs. Ceri Dart, cafwyd gwledd o ginio wedi ei baratoi gan Karen a’r staff o Gaffi Coed y Brenin. Wedi’r cinio cafwyd gêm o bingo gyda Mr. Fred Buckley yn galw, cyn i’r raffl gael ei thynnu. Diolch i’r aelodau am y gwobrau.

Y Cadeirydd, Mr. Elfed Bullock, ddiolchodd i bawb, sef i Gaffi Coed y Brenin am y bwyd ardderchog, i Fred Buckley am edrych ar ôl y bingo ac i Vernon am drefnu’r raffl.
Yn ystod y cinio cafwyd pleidlais ddirgel ynglŷn ag awgrymiadau ar gyfer gwibdeithiau 2017.
Byddwn yn trafod yr awgrymiadau yn ein pwyllgor fore Llun, 20 Chwefror am 11.00yb. Croeso i’r holl aelodau i’r pwyllgor.

Ffenestr Orau’r Nadolig

Eleni eto cynhaliwyd cystadleuaeth y Cyngor Cymuned i ddarganfod y ffenestr siop oedd wedi ei haddurno orau. Cafwyd



Yn y llun gwelir perchnogion y busnes, sef Susan, a’i merch, Catrin, gyda’r darian i’w chadw am flwyddyn. Gyda hwy mae’r Cynghorwyr Cymuned, Linda Brown ac Ann Williams, a Chlerc y Cyngor, Donna Watts.



Yn y llun gwelir disgyblion ysgol Pen y Bryn, gydag aelodau Balchder Bro a Bethesda Litter Pickers, a Jonathan Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, yn barod i gasglu sbwriel



Elfed a Manon

cystadleuaeth gref, gyda nifer o siopau wedi mynd i drafferth mawr i addurno eu ffenestri. Ond roedd rhaid i un fod yn fuddugol, a’r ffenestr a ddewiswyd fel y gorau eleni oedd ffenestr Serena, sef siop trin gwallt a harddwch ar Allt Penybryn.

Casglu Sbwriel

Yn ddiweddar, aeth criw o ddisgyblion Ysgol Pen-y-Bryn, gydag aelodau Balchder Bro Dyffryn Ogwen, a Bethesda Litter Pickers, i gasglu sbwriel yn ardal Pantdreiniog. Casglwyd 30 bag o sbwriel mewn ychydig o amser. Dyma’r ail dro eleni i’r disgyblion fod gydag aelodau Balchder Bro yn casglu sbwriel. Hoffai Ann Williams, ar ran Balchder Bro, ddiolch i’r disgyblion, a Ceira Wyn, aelod o staff yr ysgol, i aelodau Balchder Bro, Bethesda Litter Pickers, a Jonathan Neale, am eu gwaith caled yn tacluso’r ardal.

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar Ionawr y 5ed cawsom ein cyfarfod cyntaf o’r flwyddyn, a rhoddodd ein llywydd groeso i bawb a dymuno blwyddyn newydd dda i’r aelodau. Yn anffodus yr oedd ychydig o ymddiheuriadau oherwydd salwch ac yn y blaen, ond serch hynny yr oedd nifer dda wedi dod.

Mae ein cofion yn mynd at Glenys Wyn Jones a Gwenno Roberts a gobeithio bod y ddwy wedi cael Nadolig dedwydd. Yr un modd rydym yn gobeithio fod Gwen yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth. Mae Dilys, chwaer Jean Hughes, yn yr ysbyty eto wedi cael codwm, ac fe ddymunwn wellhad buan iddi. Cydymdeimlodd y llywydd â theulu Mrs. Eileen Evans, a fu’n aelod ffyddlon o’r sefydliad ers blynnyddoedd. Mae ein cofion dwys yn mynd at y teulu.

Llongyfarchwyd Myfanwy Jones ar ddod yn hen nain i ddau o fechgyn bach yn ddiweddar. Mae wedi gwirioni ar y ddau or-ŵyr! Darllenwyd cofnodion mis

Rhagfyr gan Gwyneth ac aeth Rita ymlaen i ddarllen a thrafod y llythyr misol.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Dei Fôn Williams o’r Gerlan, ond yn wreiddiol o Ynys Môn. A dyna oedd testun ei sgwrs, sef newidiadau o fewn teulu a bywyd yn gyffredinol o fewn cyfnod o 150 o flynyddoedd. Yn ei deulu ei hun – pawb yn dod o Ynys Môn, ac yn dal i fod yn eu milltir sgwâr, fwy neu lai. Ffermwyr bron i gyd ac eithrio ambell i longwr. Dangosodd hefyd fel mae enwau yn cael eu cario o un genhedlaeth i’r llall. Aeth ati i ddangos sut mae pethau wedi datblygu yn ystod y blynnyddoedd, fel y ffordd o drafailio – pawb yn cerdded i’w gwaith bod dydd ers talwm, ac eithrio’r rhai oedd yn dod o Ynys Môn i weithio yn y chwarel, ac yn aros yn y Barics ar hyd yr wythnos a mynd adra ar ddydd Gwener.

Cawsom noson ddiddorol gan Dei, sydd yn amlwg yn gwneud gwaith ymchwil trylwyr iawn cyn cyflwyno ei sgysiau. Diolchwyd iddo gan Rita, ac i’r merched am y lluniaeth. Rhoddwyd y gwobrau lwcus gan Jean a Rita, a’r enillwyr oedd Eirwen Williams a Jean Hughes.

Yr Eglwys Unedig

Bu Gwyl y Geni yn un arbennig i ni yn yr Eglwys. Cafwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant fore Sul 11 Rhagfyr. Roeddynt i gyd yn ardderchog ac roedd ystyr y Nadolig yn dod allan yn y perfformiad. Roedd popeth yn gaboledig iawn, ac i’w glywed yn glir. Mwynhad oedd i bawb oedd yno. Diolch i’r plant a’r athrawon am eu gwaith caled eto.

Ar ôl y Gwasanaeth, cawsant barti ac ymweliad gan Sion Corn. Cafodd pob un o’r plant Ysgol Sul anrheg ganddo – a hefyd y plant eraill oedd yn bresennol. Diolch iddo ef hefyd ond roedd Sion Corn yn amlwg wrth ei fodd efo’r plant.

Fore Sul 18 Rhagfyr, cafwyd gwasanaeth dan ofal Ceri a Minnie, a Rhiannon yn cymryd rhan. Diolchwyd iddynt am eu parodrwyd i wneud hyn. Noson arbennig

oedd y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, a cafwyd mwynhad mawr gan bawb. Diolch i bawb am eu rhan yn y Gwasanaeth, ac i Menai am drefnu eto. Gwnaed casgliad o £400 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Fore’r Nadolig daeth y Parch R O Jones atom i weinyddu’r Cymun. Gwasanaeth hyfryd iawn, gyda chynulleidfa deilwng.

Y Gymdeithas

Croesawyd pawb i gyfarfod Rhagfyr gan Joe ein Llywydd a cyflwynodd ein gŵr gwadd, Mr Elfed Morgan Morris, atom. Roedd Elfed wedi dod a’i nith Manon gydag ef i’w gynorthwyo. Cafwyd noson arbennig yn eu cwmni ar gân a darlenniadau, a cawsom ymuno yn rhai o’r carolau. Noson dda a naws y Nadolig clir ynddi. Diolchwyd iddynt gan Neville, ac i westeion y banded, hefyd.

Fel Eglwys, rydym yn cydymdeimlo â Mr Griff Charles Morris a’r teulu yn eu colled o wraig, mam a nain annwyl iawn, Eleanor. Bu hithau yn ei thro yn llywydd ac ysgrifennydd Cymdeithas y Chwirydd. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da’n ddiweddar, ond bu’n sioc i bawb pan ddaeth y newydd o’i cholli. Bydd colled yn fawr ar yr aelwyd i’r teulu i gyd.

Un arall sydd wedi’n gadael yw Mrs Eileen Evans, Llwyn Meurig. Bu’n ffyddlon i’r achos yn yr Eglwys gydol ei bywyd, ac mi fydd bwlech mawr ar ei hôl. Bu hithau’n cyfeilio yn y Cyfarfod Gweddi i ni. Cydymdeimlwn â Dafydd Meurig, Morfudd a’r teulu oll yn eu colled fawr. Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn methu bob hefo ni yn yr oedfaon, a dymunwn y gorau iddynt a blwyddyn newydd dda i bawb.

Ionawr

22 5pm Gwasanaeth Plygain

29 Parch Trefor Lewis

Chwefor

5 5pm Parch Gwenda Richards

12 Mr Richard Ll Jones

19 Parch Cledwyn Williams

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Diolch

Dymuna Ann, Mel, Keilly a Jenna ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu colled fawr o golli gŵr, tad, taid, brawd a ffrind i gymaint. Bu farw Raymond ar 28 o Hydref yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd ar ôl salwch byr.

Maent yn diolch yn fawr am yr holl gardiau, rhoddion a'r negeseuon y maent wedi eu derbyn. Maent hefyd eisiau diolch yn arbennig i staff ward Glaslyn yn Ysbyty Gwynedd am eu gofal a chymorth a dderbyniwyd fel teulu yn y mis oedd Raymond yno. Diolch hefyd i'r Parch John Pritchard, Dafydd Coetmor a Helen Williams ac i Stephen Jones am ei gwasanaethau. Colled enfawr i ni gyd fel teulu.

Profedigaeth

Bu farw Dafydd Rowlands ("Dafydd 44"), 3 Tan y Garth, Rachub ar ddechrau mis Rhagfyr wedi salwch hir. Cofiw'n Dafydd am ei hawddgarwch a'i gefnogaeth i foreau coffi a sawl peth arall. Hefyd cofiw'n am y cwmni tacsis yr oedd o a'i wraig yn rhedeg ers talwm. Cynhaliwyd y cynhebrwng yn Eglwys Glanogwen ac amlosgfa Bangor. Cyflwynir y rhoddion er cof am Dafydd i Ward Alaw. Brodor o Gwm-y-glo oedd Dafydd ond ymgartrefodd yn Nyffryn Ogwen. Gwisgodd aelodau'r teulu grysau rygbi Cymru yn y cynhebrwng oherwydd ei deyrngarwch i'r gêm. Cydymdeimlwn â'i wraig Julie, ei feibion Mark, Nigel a Colin a'r teulu i gyd.

Pen-blwydd Priodas Arbennig

Bu Jack a Jean Williams, 60 Maes Bleddyn, yn dathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol ar zail o Ionawr. Llongyfarchiadau a chariad mawr iddynt gan y teulu i gyd. Tipyn o gamp ynte!

Diolch

Mae Julie Rowlands, 3 Tan y Garth, a'r teulu yn dymuno diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli Dafydd. Diolch am yr holl gardiau ac arian tuag at Gronfa Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i Dafydd Roberts ac Anwen Briggs, Clwb Criced Bethesda. Diolch hefyd i Eglwys Glanogwen, ac yn arbennig i

E. W. Pritchard, Ymgymrwyr Angladdau, Llanberis, am drefniadau ardderchog a theilwng ar gyfer cynhebrwng Dafydd Rowlands (neu "Dafydd 44" i bawb o'i ffrindiau).

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Huw Jones, 5 Llyn Bedw, ar gael ei ethol i gorff Llywodraethol Ysgol Llanllechid. Dyma'r trydydd person o'r un stryd i fod arno am fod Dafydd Beech wedi ymuno yn ddiweddar a'r Cynghorydd Godfrey Northam wedi bod yn aelod ers tua deunaw mlynedd.

Ar werth

Mae'n debyg fod nifer ohonoch wedi sylwi erbyn hyn bod Cyngor Gwynedd wedi gosod arwydd 'ar werth' ar Ganolfan Gymdeithasol Stryd Britannia. Er bod Pwyllgor y Ganolfan wedi penderfynu eu bod nhw'n fodlon ymgeisio am gymhorthdal i drwsio'r ganolfan, penderfynodd Cyngor Bethesda na fyddent yn fodlon cymryd perchnogaeth o'r ganolfan wedi iddynt glywed am yr holl asedau a gwasanaethau y mae'r cyngor sir eisiau eu trosglwyddo i'r gymuned leol. Felly, oherwydd diffyg defnydd o'r ganolfan (er ymdrechion y Pwyllgor i'w cynyddu), nid oedd modd i'w chadw'n agored. Wedi dychwel y grantiau i Gyngor Gwynedd a Chyngor Bethesda, dosrannwyd gweddill o arian y Pwyllgor i gymdeithasau lleol cymwys. Mae'n dda clywed bod cymdeithasau lleol a oedd yn defnyddio'r ganolfan wedi cael cartref yn y ddwy ganolfan gymdeithasol arall sydd yn ward Rachub (sef Ysgoldy Capel Carmel a'r Clwb Criced a Bowlio) a bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i drosglwyddo maes parcio'r ganolfan i Gyngor Bethesda. Mae'n debyg bod

hyn yn atgoffa rhai ohonoch o'r neuadd ddawnsio a fu ger y ganolfan.

Ble'r aeth y garol?

Yn wahanol i'r gorffennol, ni ddaeth neb i Llyn Bedw i gnocio drysau a chanu "Dymunwn Nadolig Llawen" na "Blwyddyn Newydd Dda i chwi" eleni. Gobeithio nad ydy'r traddodiad Americanaidd o 'trick or treat' wedi disodli'r traddodiadau Cymreig hyn. Ta waeth, da oedd gweld cymaint o dai'r ardal wedi eu haddurno efo goleuadau allanol i ddathlu'r Ŵyl. (*Ddown ni flwyddyn nesa Mr Northam!)

Ysgol Llanllechid – Diolch

Hoffwn ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau da a'r anrhegion hyfryd a dderbyniais ar achlysur fy ymddeoliad (CYNNAR!), Angharad Parry-Owen

Capel Carmel

Daeth cynulleidfia ardderchog ynghyd ar nos Sul Rhagfyr 18 i ddathlu'r Nadolig hefo'r plant a'r bobl ifanc. Thema'r gwasanaeth oedd "Gwahoddiad i Barti". Gwnaeth pob un oedd yn cymryd rhan ei waith yn dda iawn. Profodd pawb ohonom o lawenydd a bendith cydaddoli ar Ŵyl y Geni. Cyfanswm y casgliad oedd £200 oedd i'w roi tuag at y gost o ail-doi adeilad yr Ysgol Sul.

Trefn Gwasanaethau

- Ionawr 22: Gweinidog
- Ionawr 29: Parchg. Geraint Roberts
- Chwefror 05: Gweinidog (Cymun)
- Chwefror 12: Parchg. John Lewis Jones
- Chwefror 19: Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.



Dyma'r plant a'r bobl ifanc yn cydganu "Noson Ben-blwydd yw hon" ar ddiwedd Gwasanaeth y Nadolig.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysus bob nos Wener
am 6.30yh
Te Bach yn y festri, pawns Llun,
30 Ionawr, 2.30 hyd at 4.00.
Croeso cynnes i bawb.

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid.
Cafwyd noson ddifyr arall yn Festri Carmel yng nghwmni aelodau'r Clwb Hanes yn ddiweddar, a hynny mewn noson dan ofal Mrs Helen Williams. 'Noson Gymdeithasol' oedd hon, ac yn wir, cafodd pawb ddigon o amser i sgwrsio, canu, cael paned a mins peis yn ogystal â chael adloniant penigamp! Yn gyntaf, cafwyd eitemau ar y soddgrwth gan Gwydion Rhys o Bron Arfon. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac

yn un sy'n brysur amlygu ei hun yn y byd cerddorol. Yn ogystal â llwyddiant ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd, daeth i enwogrwydd yn ystod yr haf drwy gael gwahoddiad i arwain Cerddorfa Gymreig y BBC yn 'Proms in the Park' ym Mae Colwyn, ac wrth gwrs fe wnaeth hynny'n gampus! Yna cafwyd dwy garol gan un arall o hogia' Rachub sef Mabon Stammers. Mae Mabon yn ddisgybl ym Mlwyddyn 2, Ysgol Llanllechid, ac wrth ei fodd yn canu a pherfformio. Yn wir, roedd newydd gymryd rhan yng ngwasanaeth carolau'r ysgol cyn dod atom i'r Clwb Hanes! Diolch, Mrs Williams am drefnu noson fendigedig!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar Ionawr 25, sef 'Noson yng Nghwmni Mr. Alaw Jones'.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

Nos Fercher,
Ionawr 25, 2017
am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.

'NOSON YNG NGHWMNI MR. ALAW JONES'
CROESO CYNNES!

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

CHWILAIR

PELDROEDWYR

Yn y chwilair mis yma mae enw CHWE PELDROEDIWR CYMRAEG AC ENW LLE CAWSANT EU GENI. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Chwefror 1af. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Dyma dechrau ar flwyddyn newydd eto, ac ar ôl y gwyliau roeddwn yn meddwl efallai fod ychydig o ymarfer corff yn beth da i chwi. Felly rwyf wedi dewis enw chwe peldroediwr enwog Cymraeg yn dyddio o ddechrau'r ganrif diwethaf hyd at y presennol, ac enw lle ganwyd hwy. Nid yw enw'r person a'r man geni ar yr un llinell. Yn anffodus cyrhaeddodd dau ateb mis Tachwedd yn hwyr, bai ar y post mae gen i ofn. Ond roedd eich atebion yn gywir Dilys A. Pritchard-Jones a Myfanwy Jones. **Dyma atebion Rhagfyr:-** Bermo; Borth; Britannia; Dolydd Hirion; Hafren; Llangollen; Nant y benglog; Pandi; Pontarfynach; Pont Fawr Llanrwst;

A	A	W	F	R	O	G	N	A	B	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V
B	J	O	H	N	C	H	A	R	L	E	S	Y	W	L	E	N	A	L	L
H	X	J	U	I	S	V	D	E	I	N	I	O	L	E	N	S	H	E	I
A	B	E	R	T	A	W	E	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X
V	E	S	O	O	R	D	N	O	M	H	C	I	R	H	G	I	E	L	A
D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	H
C	U	M	W	N	O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W
R	H	C	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	P	T
T	C	B	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B	B	F
R	F	O	G	J	V	I	I	R	R	X	I	M	H	T	N	T	O	S	K
S	O	P	W	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V	E	D	R	Y	H
G	S	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	L	D	O	S	C
G	T	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	B	W	L	Y	T	E	X
I	M	L	D	X	K	F	H	U	P	C	Q	Y	O	I	A	D	L	F	E
G	R	Z	O	Q	R	O	S	C	T	D	G	W	S	L	M	R	Z	E	B
N	E	A	J	H	K	J	U	C	L	N	L	R	V	O	O	E	G	J	P
A	W	P	G	S	O	W	R	J	J	Q	U	L	F	S	C	A	V	T	X
Y	Y	E	S	S	E	N	N	E	H	E	N	Y	A	W	L	C	E	U	G
R	H	S	L	Z	E	A	A	F	X	I	W	T	Z	H	A	K	V	A	G
B	N	K	A	D	S	I	I	K	O	G	D	H	B	S	M	I	U	R	O

Pont Rhyd y Gof; Pwll Penmaen. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Gwenda Roberts, Ynys Môn; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Merfyn a

Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bangor. **Enillydd Rhagfyr oedd:** Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor, LL57 1SG.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1991-1992

Tua 1991

- Dymchwel Capel Peniel (MC), Llanllechid.

1991

- 15/01/1991: Cyfarfod datgorffori Capel y Gatws a chau'r drysau am y tro olaf.
- 02-03/1991: Austin Taylor yn cyhoeddi bod 30 o weithwyr eto yn mynd i gael eu diswyddo (a hynny ar ôl diswyddiadau eraill cyn Nadolig 1990).
- 10-15/06/1991: Wythnos Garnifál Eglwys Glanogwen.
- 08-13/07/1991: Wythnos Garnifál Tregarth.
- 08/1991: Carnifál y Gerlan.
- 14/10/1991: *Première* y ffilm o *Un Nos Ola Leuad*.
- 05/11/1991: Marw Gwenlyn Parry, dramodydd, yn 59 oed. Gwasanaeth angladdol yng Nghapel Pen-y-groes ac wedyn ym Mynwent Macpela. Bu'n athro yn Ysgol Dyffryn Ogwen tua 1963-65.
- 25/11/1991: Agor is-orsaf newydd o'r enw Gogledd Bethesda, wedi'i lleoli ar Ffarm Cilfodan, i roi gwell derbyniad teledu a theletestun i rannau o Fethesda.
- 204 o droseddau ym Methesda yn ystod 1991: 43 achos o ddwyn o geir, 38 achos o ddwyn o dai, 19 achos o ddwyn beiciau a throseddau amrywiol, a 67 achos o ddwyn cyffredinol.

1992

- 06/01/1992: Ffurio Pwyllgor Gwarchod Dyffryn Ogwen. Gwrthdystiwyd yn erbyn bwriad Cwmni Watkin Jones a'i Fab i godi 20

- o dai preifat ar y safle y drws nesaf i Sŵn y Nant. Bwriedir i brisiau'r tai fod rhwng £60,000 a £100,000 yr un. Ond ar 03/06/1992, rhoes Pwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon, o 10 pleidlais i 7, ganiatâd llawn i'r datblygiad.
- 12-16/05/1992: Arddangosfa o Hen Luniau Dyffryn Ogwen yng Nghapel Jerusalem.
- 05-05/1992: Y dadleuon yn poethi o blaid ac yn erbyn ffordd osgoi Bethesda.
- 28/06/1992 (Bore Sul, 7.30 a.m.): Tân yn dinistrio'r Canolfan yn Nhregarth.
- 04/07/1992: Carnifál y Gerlan.
- 06-11/07/1992: Wythnos Garnifal Tregarth (ond gyda llai o weithgareddau 'oherwydd diffyg cefnogaeth').
- 27/08/1992: Marw Idris Williams, Tregarth, a fu'n athro Ffiseg, yn Ddirprwy, ac yn Brifathro Dros Dro yn Ysgol Dyffryn Ogwen.
- 08-09/1992: Canolfan y Cefnfaes yn cael ei hail-doi.
- 07/09/1992: Agor yr estyniad newydd i Gaffi Coed y Brenin yn Rhos Victoria, dan oruchwyliaeth Antur Dyffryn Ogwen.
- 07/09/1992: Cau Gorsaf Heddlu Tregarth a chyflwyno cynllun plismona gan dîm cymunedol dan arweinyddiaeth Rhingyll yn Llanberis ond yn seiliedig ym Methesda.
- 09/12/1992: Agor Mynydd Mawr (*The Bangor Pavilion Hotel*), y gwesty a bwyty i deithwyr yn Llys y Gwynt.

I'w barhau

武術 身道 心法 並 兼 練 功 館

Wu Shu Kwan®
Chinese Kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence



E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com \ Gwepllyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan



中国 功 身 心 并 道 技 兼 練 功 館

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GYDA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda
CANOLFAN TREGARTH
Hen Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru
- Hyfforddwyr -
Prif Hyfforddwr - **JAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du
Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du



Y Ffordd Hawsa a'r Mwyaf Effeithiol i Wella Eich:
Cryfder • Cyflymdra • Ystwythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646

Ffair Wirfoddoli Yr Ysgwrn

Dydd Sadwrn, Chwefror 11^{eg}



**Fedrwch chi gynnig
help llaw yn Yr Ysgwrn?**

Dewch i ddarganfod y cyfleon sydd ar gael a bod yn rhan o hanes arbennig Yr Ysgwrn

Cynhelir 2 sesiwn yng Nghaffi Prysor, ger Llyn Trawsfynydd
Dydd Sadwrn, Chwefror 11^{eg}. Dewch draw am sgwrs.
10.30 – 12.30 neu 14.00 – 16.00

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar 01766 770274

Croesewir Dysgwyr



Côr Merched Bethesda



Dyma lun o Gôr Merched Bethesda a dynnwyd yn iard Ysgol Penybryn ddiwedd yr 1950au neu ddechrau'r 1960au. Gwelir yr arweinydd, Willie Parry (ar y chwith), a'r cyfeilydd, Glyn Roberts. Derbyniwyd y llun trwy law Lesley Roberts, mab Jessica Roberts (y gyntaf ar y dde yn y rhes flaen) a oedd hefyd yn cyfeilio i'r côr. Roedd Jessica Roberts yn gyfeilydd yn Ysgol Ddawns Einir Rowlands ym Mangor, ac yn canu'r piano yn ystod y 'silent films' a fyddai'n cael eu dangos yn yr hen bictiws ym Methesda (Neuadd Ogwen heddiw).

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda	01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho	01758 730768
Caernarfon	01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst	01492 640794
Llangefni	01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn Llanrwst	01492 640794
		Staff cyfeillgar a phroffesiynol		
		Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y		

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Dirgelwch Testament a'r Gerlan

Wrth glirio'r garej daeth Mr. Gwilym Jones o'r Talwrn, Ynys Môn, ar draws copi o Destament Newydd Saesneg. Cysylltodd â'r Llais oherwydd bod enw *Miss M. Williams, 6 Well Street, Gerlan*, oddi mewn iddo. Hefyd ynddo, mae llythyr o'r Tŷ Gwyn yn Washington sydd o bosib yn dyddio'n ôl i gyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Tybed all un o ddarllenwyr y Llais daflu goleuni ar y mater gan ddweud wrthym pwy oedd Miss M. Williams, a beth oedd ei hanes?

Diolch

Mae Ymddiriedolwyr Neuadd Talgai yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Bethesda ac yn diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth i'w boreau coffi yn ystod 2016.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambwch (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Nyth Y Gân

Trwmgwsg
Di-gwsg yw y goedwig,
Mor llwydaidd y lle;
I ble'r aeth y cyfan?
At bwy ac am be'?

Nid oes yno symud
Ar frig nac ar lawr,
Na dim byd i'w glywed
Yn unlle yn awr.

Mae popeth mewn trwmgwsg
A marwaidd yw'r coed,
A'r dail wedi syrthio
Gan ddangos eu hoed.

Mor fyr yw y dyddiau,
Mor fain yw y gwynt,
A phawb wedi lapio
Wrth fynd ar eu hynt.

Ychydig a welir
Yn sefyll am hir;
Y gaeaf adawodd
Ei ôl ar y tir.

Y wên a ddiflannodd
O wyneb sawl un,
A'r tywydd sy'n amlwg
Yn sgwrs y rhai hyn.

Mor llwm yw yr ardal
Heb wyrddni na chên
Na chwaith yr un s'mudiad
O blith y rhai mân.

Ond symud ag amser
Fu raid i ni toc,
A newid ddaw eto
I fysedd 'rhen gloc.

Hen Gŷn
Hen gŷn bu'r dyn yn ei diwnio'n y gwres
Ac ôl gwaith oedd arno;
Ni wyddai neb am lwyddo
Yn y byd i'w ateb o.

Parhad yr Iaith
Yma o hyd y mae hadau'n dilyn
Hen dylwyth a'u gwreiddiau,
A'r hyn geir o'r un geiriau
Eto saif i'n plantos iau.

Distawrwydd
Y llain heddiw mewn llonyddwch, ni ddaw
O'r ddaear brydferthwch;
Mor ddi-gain yw'r drain yn drwch
A'u teulu mewn tywyllwch.

Dafydd Morris

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Pen-blwydd arbennig

Y mis hwn mae Dafydd Môn Hughes, Stryd y Ffynnon, yn dathlu pen-blwydd arbennig, sef yn 60 oed. Llongyfarchiadau mawr am gyrraedd y garreg filltir arbennig hon. Gobeithio yn fawr y byddi'n mwynhau'r dathlu ar ddiwrnod dy ben-blwydd. Fel y gwyddom i gyd, mae Dafydd yn un parod iawn ei gymwynas, ac yn barod i helpu pawb, ac rydym i gyd yn yr ardal yn dymuno pen-blwydd hapus iawn iddo, a phob dymuniad da i'r dyfodol. Cei dy docyn i deithio ar y bwsiau, rŵan, Dafydd – mwynha dy hun.

Diolch

Dymuna Arfon Evans, Carolyn, Ian, a Paula, Ciltrefnus, ddiolch o galon i deulu, cymdogion, a ffrindiau, am yr holl gardiau, rhoddion, a galwadau ffôn, a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl. Bydd y rhoddion yn cael eu rhannu rhwng Ward Alaw a Meddygfa Bethesda. Diolch yn fawr iawn i bawb!

Adref o'r ysbyty

Rydym yn falch o weld fod Megan Williams, Ffordd Gerlan, wedi dod adref wedi treulio cyfnod dros y Nadolig yn yr ysbyty. Croeso mawr ichi adref, Megan, a dymunwn adferiad llwyr a buan i chi.

Hen nain ddwywaith

Mae Myfanwy Jones, Gwernydd, wedi dod yn hen nain ddwywaith yn ddiweddar. Ganed bachgen bach, Guto, i'w hŵyr, Huw Geraint a'i briod, Catrin, ym Mhenisa'r Waun, tra ganed bachgen bach arall, Myfyr, i'w hwyres, Lowri a'i phriod, Lyn, yn Llandysul. Llongyfarchiadau mawr ichi, Myfanwy, ac i'r teulu i gyd. Dymunwn y gorau i chi oll.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Emma a Meurig Griffith, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab bychan, Owain Emyr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Marwolaeth

Daeth newydd trist i'r Gerlan unwaith eto

pan glywsom am farwolaeth y diweddar Richard Williams, Ciltrefnus, ac yntau yn 92 oed. Roedd Dic wedi byw yma am flynyddoedd lawer. Roedd yn ŵr tawel a bonheddig, ac yn uchel ei barch gan bawb. Gwelid ef yn ddyddiol yn gyrru o gwmpas yn ei Volvo. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'w deulu i gyd yn y dyffryn, ac, yn arbennig, i'r rhai sy'n byw yn y Gerlan, sef ei fab, Anthony Williams, Ciltrefnus, ei fab yng nghyfraith, Keith Jones, Ciltrefnus, ei ŵyr, Gwion Williams, a'i briod, Lisa, a'r plant, Stryd y Ffynnon. Derbyniwch ein cydymdeimlad i gyd fel teulu.

Nain a thaid

Rydym yn llongyfarch Mair ac Arfon Griffith, Ffordd Gerlan, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganed Owain i'w mab, Meurig a'i briod, Emma. Rydym yn dymuno'r gorau i'r teulu i gyd.

Gyrru cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at Mair Griffith, Ffordd Gerlan, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan, Mair.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gydag Angela Davies, a'r teulu, Rallt Isaf, yn eu profedigaeth o golli ewythr Angela, y diweddar Dafydd Rowlands, Rachub.

Croeso

Rydym yn estyn ein croeso i Gerlan i Carwyn ac Annie, sydd wedi ymgartrefu yn Stryd y Ffynnon. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yn ein plith

Dod yn nain a thaid

Llongyfarchiadau mawr i Yvonne a Simon Dignam, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn nain a thaid. Ganed mab bychan, Kayden, i'w merch, Bethan, a'i phartner, Dan, sy'n byw yn y Fali, Sir Fon.

Hen daid

Llongyfarchiadau mawr i Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, ar ddod yn hen daid ddwywaith, unwaith i Kayden, mab bychan ei wyres, Bethan, a'i phartner, Dan, yn y Fali, a, hefyd, i Elin Jean, merch fach a aned i'w ŵyr, Sion, a'i bartner, Katie, sy'n byw yn Llanfairfechan.

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.

Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.

Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Copa
Health & Wellbeing
Your Health. Our Priority.

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thorri coed

Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Dymuna Llais Ogwan Flwyddyn Newydd
Dda iawn i'w holl ddarllenwyr

Llais Ogwan

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 25 Chwefror** – Cefnfaes – Plaid Cymru.
- 11 Mawrth** – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 18 Mawrth** – Cefnfaes – Plaid Lafur.
- 25 Mawrth** – Cefnfaes – Cronfa Achub y Plant
- 01 Ebrill** – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 08 Ebrill** – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 22 Ebrill** – Cefnfaes – Capel Jerusalem .
- 29 Ebrill** – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
- 06 Mai** – Cefnfaes – Neuadd Talgai
- 13 Mai** – Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
- 20 Mai** – Cefnfaes – Gorffwysfan
- 10 Mehefin** – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 01 Gorffennaf** – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
- 07 Hydref** – Cefnfaes – Plaid Cymru
- 21 Hydref** – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 28 Hydref** – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
- 04 Tachwedd** – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
- 11 Tachwedd** – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
- 25 Tachwedd** – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Chwefror 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mawrth 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Ebrill 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
PLAID CYMRU**
25 CHWEFROR 2017
10.00 – 12.00

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Fercher,
15 Chwefror 2017**
am 7.00 o'r gloch
yn Festri Capel Jerusalem

Rhys Mwyn
Beth yw Archaeoleg?

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Gwesty'r Douglas Cyfarfod Blynyddol Marchnad Ogwen

Nos Lun, 13 Chwefror
7 o'r gloch
Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
IONAWR 24 a 31
CHWEFROR 14 a 28
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Blwyddyn Newydd Dda
Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Richard a Tracy, Ben a Josh. Sioc oedd clywed bod Mrs. Edith Jones, 1 Gefnan (gynt), wedi ein gadael yn sydyn. Mam Richard, mam yng nghyfraith Tracy a nain i Ben a Josh. Bydd colled fawr ar ei hôl – roedd wedi gweithio'n galed yn yr eglwys a'r pentref.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Jackie a Mo Switzer. Roedd Mrs. Edith Jones yn fodryb ac yn ffrind arbennig iddynt. Rydym yn meddwl amdanoch.

Clwb y Mynydd
Bydd y clwb yn ail-ddechrau ar y trydydd dydd Mercher yn Chwefror am 2 o'r gloch – os bydd y tywydd yn caniatáu.

Eglwys St. Ann a St. Mair
Ion. 22: Cymun Bendigaid
Ion. 29: Gwasanaeth Teuluol
Chwef. 5: Gwasanaeth Teuluol
Chwef. 12: Cymun Bendigaid
Chwef. 19 Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau boreol am 9.45 y.b. Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno a ni yn ein gwasanaethau.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Edith Jones, Cae Garnedd, Penrhosgarnedd (Gefnan cynt) ar Noswyl y Nadolig. Bu Edith yn aelod ffyddlon o'r Eglwys am flynyddoedd lawer ac yn gyfaill caredig i ni oll. Cydymdeimlwn â'i mab Richard a'r teulu; hefyd Mr. a Mrs. Maurice Switzer, nith a nai iddi, yn eu profedigaeth.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

TEMPLE MORRIS A'I FAN

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Pen-blwydd arbennig
Yn ystod Mis Rhagfyr dathlodd Shannon, 25 Bro Rhiwen ei phenblwydd yn 18 oed. Y mae yng Ngholeg Menai yn astudio arlwyfaeth ac yn mwynhau'r cwrs yn arw. Pob hwyl i ti yn y dyfodol Shannon.

Clwb Rhiwen
Cawsom ein cinio Nadolig yn y Caban ym Mrynrefail. Braf oedd croesawu dwy o Ddinorwig atom. Cawsom bnawn da a difyr yno. Diolch i Ann am ofalu am y trefniadau.
Byddwn yn ailddechrau pnawn Mercher, Ionawr 11. O hyn ymlaen fe fyddwn yn cyfarfod ar yr ail a'r 4ydd dydd Mercher o bob mis.

Merched y Wawr
Cawsom ein cinio Nadolig eleni yn Nhafarn y Bae, Traeth Coch ac fe aethom yno ganol dydd am y tro cyntaf. Mae'r gwesty mewn safle godidog, a hithau'n ddiwrnod braf roedd y golygfeydd yn arbennig. Roedd canmol mawr i'r bwyd ac yn sicr fe fyddwn yn ymweld rhywdro eto â'r bwyty, dwi'n siŵr. Roedd rhaid cael raffl wrth gwrs a'r enillwyr oedd Annes, Linda a Iona. Diolch i Gwen am roi llun o'r tîm cwis i bob aelod. Diolch hefyd i Carys am wneud y trefniadau a deallaf iddi hi a Cynrig fwynhau pryd bach yno bob tro yr oedd ymweliad â'r bwyty i wneud y trefniadau!
Fe fydd y gangen yn cyfarfod ar Ionawr 10fed ac fe fydd y noson yng ngofal Nia a Iona.

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mary Parry o Lanrug ond yn wreiddiol o Rhes Uchaf, Rhiwlas, yn ferch i'r diweddar John ac Annie Jones, a chwaer Ann a'r diweddar Ernest a Gwilym. Bu'n briod â Meurig am 53 o flynyddoedd a dim ond ym mis Ebrill 2016 y bu ef farw, ac ar wahân i gyfnod yng Nghaerdydd bu'r ddau a'r plant yn byw yn Llanrug, pentref genedigol Meurig. Yn ôl pob sôn cyfarfu'r ddau wrth Lôn Bach Awyr! Bu Mary'n gweithio am flynyddoedd gyda Boots, i ddechrau ym Mangor ac yna yng Nghaernarfon. Roedd yn fedrus iawn â'i dwylo ac fel y dywedodd y Gweinidog yn y tŷ ddydd ei hangladd roedd yr amrywiol bethau yn yr ystafell yn dyst o'i dawn. Bu'r angladd Ddydd Sadwrn, Rhagfyr 17, gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, gwasanaeth preifat ar yr aelwyd yn ôl ei

dymuniad ac i ddilyn yn gyhoeddus ym mynwent gymuned Llanrug. Cafwyd teyrnged teimladwy iddi yn y tŷ gan Tudur, ei mab ac roedd y nifer yn y fynwent yn arwydd o'i phoblogrwydd. Anfonwn ein cydymdeimlad at Dwynwen, Tudur a Gareth a'u teuluoedd, Ann, ei chwaer a'r teulu, a hefyd y teulu yng nghyfraith. Derbyniwyd arian er cof tuag at Macmillan.
Yn sydyn ac yn annisgwyl yng Nghae Garnedd bu farw Mrs Margaret Mary Thomas, gwraig y diweddar Eifion Thomas a chwaer yng nghyfraith Mrs Meirwen Owen, Cartref Glan Rhos, Frondeg gynt, a modryb i Einir, Ffiolau'r Grug. Roedd Margaret yn gymeriad hwyliog a bob amser yn mwynhau sgwrs. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu ac at Dylan ei mab, a'r wyresau.
Yn yr un modd cydymdeimlwn â Dilys Parry, Bryntirion. Bu farw ei chyfneither, Mrs Gracie Ellen Jones, yn dawel yng Nghartref Foelas, Llanrug. Yn wreiddiol o Ddeiniolen roedd yn briod â'r diweddar Barchedig Richard Jones a fu'n gweinidogaethu mewn sawl ardal yng Nghymru a hefyd ar gyrion Llundain.

Ymddeoliad
Wedi cyfnod o ddysgu am dros pum mlynedd ar hugain yn Adran y Babanod yn Ysgol Llanllechid, mae Angharad Parry Owen wedi ymddeol ar ddiwedd tymor y Nadolig. Pob dymuniad da Angharad a mwynha pob diwrnod o'r ymddeoliad.

Diolch
Dymuna Dwynwen, Tudur a Gareth a'u teuluoedd ynghyd ag Ann a Dafydd a'r teulu ddatgan eu diolchgarwch diffuant am y llu cardiau, rhoddion tuag at Macmillan, galwadau ffôn ac ymweliadau yn dilyn y golled enfawr ym marwolaeth Mary, Wenllys, Llanrug (7 Rhes Uchaf gynt), gwraig, mam, nain, chwaer hoffus a ffrind i lawer.

Sesiynau USWEAT
Fe fydd y sesiynau gyda Ffion yn ailddechrau ar nos Lun a nos Iau fel arfer am hanner awr wedi saith. Yn ogystal ar nos Lun am saith o'r gloch fe fydd sesiwn Rhiant a Phlentyn.

Cyfarchion
Dymunaf flwyddyn newydd dda i'r darllenwyr a diolch yn arbennig i'r rhai sy'n rhannu newyddion am ddigwyddiadau'n y pentref â mi. Cofiwch gysylltu os am gael unrhyw stori, cyfarchion, llun, neu unrhyw newyddion yn y Llais.

MODURDY FFRYDLAS



Profion M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO

Y FFORDD WAGLAW

KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon

Dwywrs gynta am ddim

HUNAN AMDDIFFYN - HUNAN HYDER
FFITRWYDD - DISGYBLAETH - PARCH
SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO
TRADDODIADOL

- * £35 y mis disgowntu teuluol
- * Dim Cytundeb, Dim Cyteirnod Debyd
- * Strwythur Graddio Traddodiadol
- * Hyfforddwr 4ydd Dan ac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007
- * Pennaeth Soke Yamada Sensei 10fed Dan o Japan

NOS FRIWARTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED
AC OEDOLION

I SICRHAU EICH LLE YN Y CLWB:

FFON: 07595 361624
Ehost: shukokaiwales@icloud.com
Y WE: www.shukokai-wales.com
half ni ar facebook facebook.com/shukokainorthwales

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Yn ddiweddar cynhaliwyd dau ddiwrnod o gasglu arian at waith y Cyfeillion. Roedd cyfanswm Tesco Bangor yn £400.56, a Co-op Llanfairfechan yn £208.00. Diolch yn fawr i'r rhai fu'n casglu!

Diolch hefyd am y rhoddion caredig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, tuag at waith y Cyfeillion:

Paned a Sgwrs, Bodffordd - £800.00
Mr. a Mrs. Ll. Jones, Talybont - £20.00
Cymdeithas Jerusalem, Bethesda - £40.00
Capel Bethlehem, Talybont - £70.00
Mr. a Mrs. G. Huws-Roberts - £150.00
Menter y Pentre, Cemaes - £100.00
Mrs. E. Roberts - £22.00
Er Cof - £125.00
Mr. a Mrs. Iorys Griffiths, Bangor - £100.00
Mrs. Mair Griffiths, Waen Wen - £25.00

Cyfanswm

£1,452.00

Codwyd £147.00 ar y Bwrdd Tombola ym Marchnad Ogwen, Bethesda, yn ogystal â £1,441.14 pellach a godwyd, gyda diolch i Jean, Margaret, Kath a Ceinwen a fu'n rhedeg y Tombola Nadolig.

Dyma restr o nwyddau ac offer y mae'r Cyfeillion wedi eu gaddo i Ysbyty Gwynedd:

Ffaniau a chloriannau i Ward Glyder - £140.00
Breast Retractor - £7,140.00
Peiriant INR - £1,000.00
Positioning Step Lift - £5,800.00
Bag Trosglwyddo - £550.00
Rehabilitation Upgrades - £1,000.00
Offer Endoscopi - £8,000.00
C-MAC Video Laryngoscope - £10,200.00
Bag Profedigaeth - £550.00

Fel y gwelwch, mae cyfanswm yr addewidion yn agos i £35,000.00, a thros y misoedd nesaf bydd y Pwyllgor yn trefnu gweithgareddau i godi arian, gan ddiolch o flaen llaw am bob cefnogaeth. Diolch yn fawr hefyd, am bob rhodd, yn arbennig ar gyfer ein bwrdd gwerthu yn Ysbyty Gwynedd bob dydd Mawrth a dydd Iau.

Y Rhyfel Byd Cyntaf

Trist o'r tensus gan Andre Lomozik

Yn rhifyn Hydref 2016 o'r Llais roeddwn wedi coffau R. Williams, bachgen 25 oed a laddwyd ar y 26ain o Hydref 1916, mab John a Margaret Williams, Cefnfaes St. Yn ddiweddar dois ar draws cofnod ohono yn 'Y Genedl' dan y teitl 'Trist o'r Tensus'. Dyma fel yr adroddwyd yr hanes yn y papur:-

"Trwm a phruddaid iawn i'r ardal hon ydoedd y newyddion o Ffrainc. Bythefnos yn ôl ymddangosodd niifer o benillion toddedig a thlws yn y "Genedl" o waith y milwr Richie Williams, B.A., Brynteg, ar ôl cyfaill cu iddo a syrthiodd yn aberth i'r cledd, wrth ei ochr, ar faes y frwydr. Yr wythnos hon daeth gair i'w fam a'r teulu, fod yntau, Richie druan, wedi syrthio yn gyffelyb i'w gyfaill. Ysgolfeistr yn Norwich ydoedd y cyfaill amryddawn hwn cyn ymuno a'r fyddin, ac un a ddygwyd i fyny yn Ysgol y Carneddi a'r Ysgol Sir, cyn myned i'r coleg. Hawdd fyddai ysgrifennu llawer am y brawd ieuanc hwn, oherwydd ei amrywiad ddoniau a'i hawddgarwch".

Mae enw Richie wedi ei naddu ar gofeb Thepval, ynghyd â dros saithdeg dau mil o filwyr eraill o'r Deyrnas Unedig a De Affrica a gollwyd yn sector y Somme cyn yr 20fed o Fawrth 1918, heb adael ôl ohonynt.

Thomas Glyn Gough Williams oedd enw cyfaill Richie, bachgen 20 oed o Penbedw, mab Thomas Hughes Williams a Margaret Gough Williams. A dyma fel mae penillion Richie yn ymddangos yn y Genedl, dyddiedig 31 Hydref 1916.

"ER COF AM GLYN GOUGH WILLIAMS
YR HWN A LADDWYD YN FFRAIN
AWST 19, 1916

Do, collais fy ffrynd yn y frwydr,
Ac wylo yr wyf ar ei ôl;
Cha'dd Glyn ddim ond diwrnod o'r ffosydd,
Daeth angel ei Arglwydd i'w nôl.

I'w nôl o sŵn erch y ddrycin,
O'r llaid a'r dioddef a'r drin,
I heddwch plant Duw yn y cyfnos
I wlad sydd yn dyner ei hin.

Yn gorwedd a'i wên ar ei enau,
Fel un wedi cyrraedd yr heddi;
Fel bachgen yn gorffwys 'rôl blino,
Heb ddim ôl y saeth ar ei wedd.

Cyn hynny yn siarad y buom
Am Gymru, a chartref, a mam;
A sôn am ein mamau a yrrai
Ein calon gan gariad yn fflam.

Cu oeddynt gennyf, fy nghyfaill,
A'th chwerthin a'th ganu mor fwyn,
Pa'm drylliwyd dy delyn mor gynnar?
Pa'm tawodd dy gân gyda'i swyn?

Wel, huna yn dawl, Glyn annwyl,
Cei fyned i wyddfod dy Dduw,
Am iti roi bywyd mor werthfawr
Er mwyn i'th rai annwyl gael byw.

Lce-Cpl. Richard Williams B. A. (O Brynteg)
(Mae Thomas Glyn Gough Williams wedi ei gladdu ym mynwent Serre Road Somme.)

Y Rhyfel Byd Cyntaf

(WEEPING WINDOW) Robert Jones gan Andre Lomozik

Yn dilyn yr erthygl yn y Llais y mis diwethaf (Weeping Window) am y milwr Robert Jones, roeddwn wedi ceisio cael llun ohono i'w gynnwys gyda'r erthygl. Anfonais e-bost i Gastell Bodolwyddan lle mae cofnodion Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig yn cael eu cadw, ond nid oeddwn wedi derbyn ateb erbyn diwedd Tachwedd, pan roeddwn yn anfon yr hanes i'r Llais. Daeth ateb yn ôl ar y 7fed o Ragfyr gan Patricia Satchell, un o ymchwylwyr gwirfoddol yr amgueddfa, yn dweud nad oedd llun o Robert Jones ymysg eu casgliad, ond anfonodd

ychydig o fanylion eraill amdano. Yn ôl y ddogfen oedd yn cofnodi ei farwolaeth, a anfonwyd i'r swyddfa ryfel yn Llundain gan Lysgennad yr Iseldiroedd yn Constantinople, bu Robert farw tra yn garcharor yn Twrci, mewn ysbyty o'r enw Maltepe yn Constantinople. Dyma beth sydd wedi ei ysgrifennu yn y llythyr. "Died from severe anaemia caused by enteritis" ac roedd yr esboniad yma yn dystiolaeth boddhaol i bwrpas swyddogol. Mae yn mynd ymlaen i ddweud fod y manylion yma i'w anfon i'r teulu gyda gwybodaeth am leoliad ei gladdu.

Ysgol Dyffryn Ogwen



Rhai o'r gwesteion yn mwynhau!

Te prynhawn Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen 2017
Eto y flwyddyn hon bu'r te prynhawn yn llwyddiant. Croesawyd dros wyth deg o'r henoed lleol i'r ysgol am y prynhawn o luniaeth ysgafn ac adloniant. Roedd y lluniaeth wedi cael ei baratoi gan grŵp Lletygarwch blwyddyn 10, a bydd eu perfformiad yn cyfrif tuag at eu cymhwyster lefel 2 BTEC. Diolch o galon i fusnesau lleol am gyfrannu tuag at y bwyd a'r raffl sef Tesco, Serena, Spar a Llechwedd Meats. Heb eu cyfraniad ni fuasem wedi gallu cynnal y te Nadolig.

Gwasanaeth Nadolig
Ar nos Sul, Rhagfyr 18 cafodd yr ysgol wahoddiad i ymuno yn nathliadau'r gymuned yn y gwasanaeth carolau yng Nghapel Jerusalem. Cyflwynodd y côr hŷn un gân fywiog gospel sef 'O Sanctaidd Fam' allan o'r ffilm 'Sister Act'. Ymunodd disgyblion iau yr ysgol wedyn i gyd-ganu 'Llewyrch ei Seren' a oedd yn disgrifio prysurdeb y cyfnod Nadoligaidd. Yn

ogystal fe ganodd Elen, Cadi, Beca ac Efa 'O Ddwyfol Nos' i gyfeiliant cefndirol lleisiol aelodau Côr y Penrhyn. Daeth y gwasanaeth i ben yn fawreddog gyda'r corau yn cyd-ganu 'Fe Aned Baban Bach i'r Forwyn Fair' gyda Côr y Penrhyn a Chôr y Dyffryn. Roedd hyn yn brofiad gwefreiddiol i'r disgyblion.

Taith Llundain
Cafodd criw'r 6ed sy'n astudio Saesneg lefel A gyfle gwych i wyllo perfformiad o'r ddrama *King Lear* yn Theatr y Barbican ar ddechrau mis Rhagfyr. Gwelwyd perfformiadau gwefreiddiol gan yr RSC yn cynnwys yr actor enwog Anthony Sher. Cafwyd hefyd gyfle i flasuo diwylliant awyr agored Covent Garden, a gwneud ychydig o siopa 'Dolig!

Casglu Arian Achub y Plant
Diolch i bawb am gyfrannu tuag at ddiwrnod siwmpwr Nadolig 2016. Roedd yr arian a godwyd yn mynd tuag at elusen Achub yr Plant.

Pantomeim
Bu holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweld perfformiad o'r pantomeim *Aladdin* yn Llandudno yn ystod wythnos olaf y tymor. Yr oedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a swnllyd yn unol â thraddodiad y pantomeim Nadoligaidd, ac yr oedd y disgyblion a'r aelodau o staff wedi cael bore difyr iawn. Diolch i'r Adran Saesneg am drefnu.

Taith Manceinion
Ar Ragfyr 15fed bu nifer o ddisgyblion blyneddod 8, 9 a 10 ar daith i weld sioe gerdd 'Billy Elliott' yn y Palace Theatre ym Manceinion. Roedd y disgyblion wedi cyffroi yn lân yn cael mynd i siopa a chael cinio yng Nghanolfan Siopa Trafford yn ystod y bore. Roeddent wedi gwirioni mwy fyth wrth gael profiad bythgofiadwy yn gwylio'r sioe gerdd enwog gan Lee Hall ac Elton John yn ystod y prynhawn.

Sesiynau Dringo 5x60
Mae disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen wedi bod yn mynychu sesiynau dringo yng Nghanolfan Dringo Beacon yn wythnosol ac yn manteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd newydd gyda rhaffau neu fowldro. Mi fydd y sesiynau yn ail-gychwyn ar ôl gwyliau'r Nadolig. Bydd cystadleuaeth dringo 5x60 ym mis Chwefror 2017.

Beicio - Sprint ID
Roedd Beicio Cymru wedi ymweld â disgyblion Dyffryn Ogwen i gyflwyno profion beicio sbrint ym mis Tachwedd eleni. Pwrpas yr ymweliad oedd profi talent disgyblion blwyddyn 9 a 10 mewn beicio sbrint. Os bydd disgybl yn meddu potensial bydd cyfle i ymweld â Felodrom Cenedlaethol Cymru am fwy o brofion gyda'r gobaith i ymuno gyda charfan beicio Cymru.



BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTŌN AC ATŌ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Ysgol Abercaseg

Hanukka

Daeth Nathan Abrams i'r ysgol i sôn am ddatliadau Hanukka. Gan fod yr ŵyl Iddewig yn cael ei dathlu yr un pryd â'r Nadolig eleni, bu'r plant yn cymharu arferion y ddwy ŵyl.

Cyngerdd Nadolig

Wedi wythnosau o ymarfer cafwyd sioe lwyddiannus ddiwedd y tymor. Roedd neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen yn orlawn a hoffai'r ysgol ddiolch i bawb a ddaeth i gefnogi ac i Tesco, Bethesda am gyfrannu mins peis. Diolch hefyd i'r plant am geisio eu gorau, roedd pob un yn ddigon o sioe.

Ymweld â Neuadd Ogwen

Aeth holl blant yr ysgol i weld sioe Dail gan Arad Goch yn Neuadd Ogwen. Roedd yn braf cael ymlacio a chwerthin ar ddiwedd tymor wrth fwynhau'r perfformiad.

Ymweld â Siôn Corn

Cafodd plant dosbarth Derbyn gyfle i ymweld â dyn arbennig iawn yn Tesco. Gwirionodd pob un wrth sgwrsio a chael anrheg cynnar gan Siôn Corn.



Sion Corn

Sgwad Syniadau

Yn dilyn gwerthu calendrau ysgol penderfynodd y Sgwad Syniadau roi rhan o'r elw i elusen Dŵr Glan yn Affrica a rhannu'r gweddill rhwng dosbarthiadau'r ysgol.

Siwmperi Nadolig

Penderfynodd grŵp Ffrindiau'r Byd ofyn i blant yr ysgol wisgo siwmperi Nadolig er mwyn casglu arian tuag at elusen Achub y Plant. Yn ogystal â hyn trefnodd y grŵp ddisgo ar brynawn ola'r tymor, a mwynhaodd pawb ddawnsio.

Ymweld â'r Eglwys

Aeth plant Blwyddyn 2 i Eglwys Glanogwen ym mis Rhagfyr gan gymryd rhan mewn gweithgareddau Nadoligaidd. Cafodd pawb gyfle i greu cardiau Nadolig, addurno bisgedi ac actio stori'r geni.



Yn yr Eglwys

Ysgol Tregarth

Pantomeim

Gan eu bod wedi ymddwyn mor dda yn ystod y tymor, bu disgyblion yr holl ysgol yn Pontio ym Mangor yn gwyllo pantomeim Blodeuwedd diwedd y tymor. Roedd hi'n bantomeim hwyliog iawn, gyda llawer o dynnu coes y gynulleidfa, digon o jôcs gwirion a chanu a dawnsio gwerth chweil. Cafodd y disgyblion andros o amser da a phawb wedi mwynhau.

Cyngerdd Nadolig

Ar ôl wythnosau o ymarfer a pharatoi gan y plant cynhaliwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus dros ben yng nghapel Shiloh. Roedd thema'r sioe yn seiliedig ar raglenni a chymeriadau enwog rydym yn ei fwynhau heddiw. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau.

Diolch i Jones and Whitehead am eu cymorth gyda'r llwyfan ac i swyddogion Capel Shiloh am eu cydweithrediad, yn ogystal ag i'r rhieni am ddarparu gwisgoedd gwerth chweil!

Ymweliad Capel y Ffynnon

Cafodd blynyddoedd 1 a 2 ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor yn ddiweddar. Yno, cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau Nadoligaidd gan ddysgu am stori'r geni, a chymryd rhan mewn drama a gwisgo gwisgoedd bendigedig. Roeddynt wrth eu boddau yn cael gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Diolch yn fawr iawn i Gapel y Ffynnon am ein croesawu eto eleni.

Dathlu'r Nadolig yn yr ysgol

Cafwyd cinio Nadolig gwerth chweil wedi ei baratoi gan staff y gegin eto eleni a

phawb wedi bwyta gormod. Cafwyd hefyd ddiwrnod siwmpwr Nadolig yr wythnos olaf gyda phawb wedi gwisgo siwmpwr Nadolig i godi arian at elusen elusen lleol. Roedd cynnwrf mawr at ddiwedd y dydd pan gyrhaeddodd Sion Corn yr ysgol i weld yr holl ddisgyblion. Bu'r plant wrth eu boddau yn cael dawnsio, chwarae gemau a bwyta llond bol yn y parti.

Ffair Nadolig

Cafwyd ffair Nadolig llwyddiannus iawn eleni. Diolch o galon i'r Cyfeillion a oedd wedi gweithio'n galed iawn i sefydlu pwyllgor a threfnu'r ffair. Diolch yn arbennig i Mrs Jane Parry am drefnu'r cyfan, a diolch i'r cwmnïau lleol am eu rhoddion a chefnogaeth. Diolch i chi gyd am gefnogi. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod eto i drefnu digwyddiad arall yn fuan - croeso cynnes i bawb.

Chwilio am fwy o Ofalwyr Cartref

Mae Cyngor Gwynedd yn chwilio am fwy o bobl i weithio fel gofalwyr cartref. Ar hyn o bryd, mae bron i 300 o ofalwyr cartref yn gweithio i Asiantaeth Gofal Cartref y Cyngor, sydd rhyngddyn nhw'n darparu dros 5,500 o oriau'r wythnos o wasanaeth. Gyda chyfran uwch na chyfartaledd Cymru o bobl dros 65 oed, a'r nifer yn cynyddu'n barhaus, mae mwy o alw nag erioed am ofalwyr o'r fath yng Ngwynedd, a chyfleoedd i staff newydd i ymuno â'r tîm. Meddai Huw Ceiriog o Adran Oedolion, Iechyd a Lles y Cyngor: "Rydان ni'n chwilio am unigolion cydwbybodol, dibynadwy a charedig, ac nid o reidrwydd am gymwysterau penodol. Wrth gwrs, fe fyddwn ni'n rhoi ystyriaeth arbennig i bobl sydd â phrofiad o weithio yn y maes gofal, neu i fyfyrwyr sydd ar fin cwblhau eu hastudiaethau yn y maes. Mae yna

lawer iawn o bobl sy'n byw yn ein plith a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl fregus y sir trwy gynnig help llaw iddyn nhw fel eu bod yn gallu parhau i fyw yn annibynnol." Dywedodd fod y Cyngor yn gallu cynnig amodau gwaith hyblyg i bobl addas. "Yn ddelfrydol, rydan ni'n chwilio am bobl i weithio dros 25 awr yr wythnos, ond mi allwn ni gynnig cytundebau am lai o oriau a hyblygrwydd i bobl sydd ag ymrwymïadau eraill," meddai Huw Ceiriog. "Rydان ni'n cynnig cytundebau sefydlog a phob math o fanteision fel tâl gwyliau, costau ac amser teithio a chynllun pensiwn atyniadol. Os nad oes gennych chi gymwysterau, mi fyddwch yn cael hyfforddiant ac yn cael treulio amser gyda gofalwr profiadol i gynefino â'r gwaith." Gydag angen am fwy o ofalwyr ym mhob rhan o'r sir, yn enwedig mewn ardaloedd

gwledig, mae'r Cynghorydd Gareth Roberts, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Wasanaethau Cymdeithasol Oedolion, yn apelio'n uniongyrchol ar i bobl ddod ymlaen. Meddai'r Cynghorydd Roberts: "Hoffwn annog pobl leol i ystyried o ddifrif cynnig eu hunain ar gyfer y gwaith. Dw i'n siwr fod yna bobl sy'n byw yn ein mysg a allai wasanaethu fel gofalwyr rhagorol. "Mae'r gwasanaeth pwysig yma'n cynnig gyrfa sefydlog ac mae hefyd yn waith sy'n rhoi'r boddhad o wybod bod rhywun yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy. Mae'n dod â llawenydd i lawer o bobl trwy eu galluogi i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain." Gall unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu gyda'r Cyngor am fwy o wybodaeth a ffurflen gais ar www.gwynedd.llyw.cymru/swyddi neu trwy ffonio 01341 424534.

Llwyfannau digidol newydd yn cynnig cyfleoedd i'r Gymraeg

Mae llwyfannau digidol yn cynnig cyfleoedd i'r iaith Gymraeg fod yn rhan ehangach o fywydau pobl Cymru bob dydd. Mae Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor, ar y cyd gydag Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr y Brifysgol yn gweithio ar nifer o brosiectau ymchwil yn edrych ar sut mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar lwyfannau digidol. Mae'r modd y mae unigolion yn defnyddio ffonau symudol, cyfrifiaduron llechen a'r we yn gyffredinol yn newid y ffordd rydym yn cael mynediad at wybodaeth a chynnwys ar-lein. O ganlyniad mae dwy fyfyrwraig o Ysgol Gwyddorau Cymdeithas y Brifysgol wedi derbyn ysgoloriaethau KESS i ymchwilio i'r maes hwn, mewn cydweithrediad a chwmnïau masnachol adnabyddus. Un o'r myfyrwyr hynny yw

merch leol o Tanysgafell, Bethesda sef Shân Pritchard. Cafodd Shân ei haddysgu yn Ysgol Gynradd Llanllechid ac yna'n Ysgol Dyffryn Ogwen. Ar ôl gadael yr ysgol, aeth Shân ymlaen i astudio Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor cyn graddio gyda gradd dosbarth cyntaf yn 2014. Wedi hynny, derbyniwyd ysgoloriaeth KESS i weithio mewn partneriaeth a'r cwmni cynhyrchu teledu, Cwmni Da i werthuso llwyddiant deunyddiau digidol ac apiau Cymraeg neu ddwyieithog. Eglurai Shân: "Y dyddiau hyn, mae gan bron pawb ffonau clyfar sydd a'r gallu i lawr lwytho a defnyddio apiau. Mae'r apiau hyn wedi dod yn rhan arferol o fywydau beunyddiol eu defnyddwyr, sydd a'r gallu i weithredu pob math o dasgau amrywiol, fel i gymdeithasu, canfod gwybodaeth a chwblhau

tasgau ymarferol. Mae dyfodiad apiau Cymraeg neu ddwyieithog yn darparu cyfle ychwanegol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mywydau pobl Cymru. Diben yr ymchwil felly, yw gwerthuso'r hyn sy'n gwneud apiau Cymraeg neu ddwyieithog llwyddiannus, yn enwedig ar gyfer cynulleidfa Cwmni Da. Drwy ymdrech gydlynol gan ddarparwyr, bydd modd ehangu perthnasedd y Gymraeg, a normaleiddio defnydd o'r iaith o fewn y byd digidol." Dywed Phil Stead, cynhyrchydd digidol Cwmni Da; "Fel mae mwy a mwy o bobl yn cyfathrebu drwy blatfformau digidol amrywiol, mae'n oll-pwysig fod yr iaith Cymraeg yn cael ei weld, ac yn cael ei ddefnyddio cymaint ag mae'n cael ei siarad ar lafar. Er mwyn cynnig gwasanaethau a theclynnau digidol o safon, mae'n angenrheidiol ein bod yn

deall ein cwsmeriaid. Bydd ymchwil Shân yn helpu ni i ddatblygu cynnwys a meddalwedd sydd yn cwrdd ag anghenion ein defnyddwyr." Y cam nesaf yn ymchwil Shân yw casglu data drwy holiadur. Mae'r holiadur yn gofyn ynglŷn â defnydd pobl o dechnoleg yn gyffredinol a'u profiadau neu agweddau tuag at dechnoleg cyfrwng Cymraeg. Mae croeso i unrhyw un sy'n byw yng Ngwynedd ac sydd dros 11 mlwydd oed i gwblhau'r holiadur, sydd i'w gael ar-lein neu ar bapur. I gwblhau'r holiadur ar-lein, dilynweh y linc:<http://tiny.cc/holiadurdigidol>. Am fwy o wybodaeth, neu i dderbyn holiadur papur cysylltwch â Shân drwy e-bost arsop44d@bangor.ac.uk neu drwy twitter: @Shan_Pritch. Mi fasa Shân yn hynod o ddiolchgar am eich cyfraniad ac eich amser. Diolch!

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
01248 351067
marred567@btinternet.com

Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn yr ardal sy'n darllen *Llais Ogwan*. Cofiwch anfon eich newyddion ata'i yn ystod y flwyddyn. Mae bob amser yn braf clywed gennych.

Bingo Nadolig

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y Bingo Nadolig yn y Ganolfan yng Nglasinfryn. Cafwyd noson fywiog a hapus gyda phawb wedi dod a bwyd parti efo nhw. Gwnaed elw o £150 sydd wedi cael ei roi i Ward Dewi a Minffordd yn Ysbyty Gwynedd i helpu efo adnewyddu'r ystafell rhieni a pherthnasau. Mae ein dyled yn fawr hefyd i'r rhai sydd yn cyfrannu drwy'r flwyddyn, un ai yn ariannol, neu trwy gyfrannu gwobrwyon at y bingo a'r raffl. Diolch o galon.

Dathliad arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Mark a Rhian Edwards, 1 Bro Infryn, Glasinfryn, sydd wedi dathlu eu pen-blwydd priodas arian y mis yma. Mae pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol wedi

hedfan heibio! Pob dymuniad da a llongyfarchiadau.

Dathlu pen-blwydd

Pob dymuniad da i Mrs Muriel Pritchard, Tegfan, Waen Wen, fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 98 oed ar 22 Ionawr. Llongyfarchiadau mawr a mwynhewch y dathlu!

Caio yn cyflwyno siec i Ambiwylans Awyr Cymru

Yn ddiweddar cafodd Caio fynd am dro gyda taid i faes awyr Caernarfon a chael golwg manwl ar hofrennydd Ambiwylans Awyr Cymru. Yn ystod eu ymweliad fe gafodd gyfle i gyflwyno siec am £100.00 tuag at y gwaith maent yn ei wneud yn ddyddiol ar hyd a lled Cymru.

Mae taid ac yntau wedi cyflwyno rhoddion tebyg at achosion eraill yn ddiweddar, sef Ty Gobaith a Ward Alaw, ynghyd â bocsus siocled i'r plant yn Ward Dewi, Ysbyty Gwynedd.

'Roedd hyn yn bosib oherwydd y gwaith da oedd wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd gan y trigolion ac aelodau o "Llais y Gymuned" yn ardal Caerhun, Pant a Waen Wen. 'Roedd codi arian at achosion lleol yn rhan bwysig o'u hymgyrch. Diolch i bawb a fu yn ein cefnogi.

Mae y rhai sydd wedi derbyn rhoddion hefyd yn estyn eu diolchgarwch i bawb am eu cyfraniad.

gair neu ddau

John Pritchard

Duw Sy'n Cofio

Mi gawsom gwis yn yr oedfa heno a hwnnw, yn ddigon priodol ddechrau Ionawr, yn ymwneud â digwyddiadau'r hen flwyddyn. Cwis digon syml, gallech dybio; rhestr o ddeuddeg o bethau a ddigwyddodd yn ystod 2016; un digwyddiad i bob mis o'r flwyddyn. A'r cwbl oedd angen i ni ei wneud oedd dweud ym mha fis y digwyddodd pob un. Tri thîm am y gorau i roi trefn ar y digwyddiadau o fyd chwaraeon, ffilm, gwleidyddiaeth ac ati; a siom o'r mwyaf oedd gweld fod y ddau dîm arall wedi gwneud yn well na'n tîm ni. Dim ond tri ateb cywir gawsom ni.

Roedd y ddau dîm arall yn well na ni, ond doedd neb yn agos at gael pob ateb yn gywir. Roedd ambell un o'r digwyddiadau wedi mynd yn angof; ambell un, fel dyddiad Etholiad y Cynulliad ym mis Mai, yn fyw yn y cof; a'r gweddill wedi mynd yn gymysg â'i gilydd. Ym mha fis y bu farw Alan Rickman, neu yr ymddiswyddodd Diane Jones o arwain UKIP, neu y bu'r gyflafan ar strydoedd Brwsel? Pob math o ddigwyddiadau, dwys a difyr, pwysig a dibwys, wedi llithro'n rhyfedd i niwl rhyw hen orffennol newydd.

Mor rhwydd yw anghofio. Mae hynny'n wir am ddigwyddiadau mawr ar lwyfan byd. Mae'n wir am bethau sy'n digwydd yn nes atom. Ond gwaeth na'r cyfan, mae hefyd yn wir am dreialon a helbulon a dioddefiadau cyfeillion a chymdogion a châr. Gall y rhelyw o bobl anghofio. Ac oherwydd hynny, mor werthfawr bob amser yw'r bobl sydd yn cofio.

Gallwn ddiolch i Dduw am y ffrindiau a'r perthnasau sy'n dal i gofio wrth i'r wythnosau a'r misoedd a'r blynyddoedd fynd heibio. A mwy na hynny hyd yn oed, gallwn ddiolch fod Duw yn cofio. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Beibl yn pwysleisio fod Duw yn cofio ei bobl: 'Cofiodd Duw am Noa' (Genesis 8:1); 'yr oedd wedi cofio am Abraham' (Genesis 19:29); 'a chofiodd Duw Rachel' (Genesis 30:22); 'a chofiodd ei gyfamod ag Abraham, Isaac a Jacob' (Exodus 2:24). Ie, Duw sy'n cofio yw Duw'r Beibl. Mae'n cofio'r addewidion a wnaeth. Mae'n cofio ei gyfamod â'i bobl. Mae'n cofio ei bobl. Ac mae'n cofio amdanom ni ym mhob peth sy'n digwydd i ni o flwyddyn i flwyddyn ac o ddydd i ddydd.

Ac ar ddechrau blwyddyn newydd arall, cysur o'r mwyaf yw gwybod hynny. Beth bynnag a ddaw, mae gennym Dduw sydd ac a fydd eto'n cofio amdanom. Awn ni byth yn angof i'r Arglwydd. Aiff ein llawenydd byth yn angof i'r Duw sy'n cofio amdanom ac yn darparu pob math o fendithion ar ein cyfer. Ac aiff ein trafferthion byth yn angof i'r Duw a fydd yn ein cynnal ym mhob storm a thrallod a all ddod i'n rhan. Nid yw'n rhy hwyr, gobeithio, i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

John Pritchard





Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda gan bawb ym Marchnad Ogwen!
Croeso cynnes i'n stondin newydd - Cynnyrch Chwarel Goch. Mae'r stondin yng ngofal Colette Price sy'n defnyddio cynnyrch ei gardd i wneud danteithion gyda ffrwythau. Cewch gyfle i brynu mêl o'r cwch gwenyn a hefyd ddanteithion wedi eu paratoi gan ddefnyddio'r mêl. Un enghraifft yw'r diodydd wedi eu paratoi gyda lefel isel o siwgr a blas y ffrwyth yn hyfryd ynddynt. Bydd y cynnyrch sydd ar werth yn ystod y flwyddyn yn amrywio gan fod Colette yn manteisio ar y ffrwythau pan maent eu tymor. Mae safon uchel i'r bwydydd ac mae Sgôr Hyllendid Bwyd o 5 gan Colette.
Mae'r Farchnad nesaf Chwefror 11eg yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30. Croeso cynnes fel arfer wrth gwrs. Mae gwybodaeth am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook a Twitter.

Y BWTHYN TE
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF
- BETHYNN A AGELASTYDD ARI
- WAELODION LUNTER YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
- YN YSTOD Y 150s. GWIRF
- CEWCH GRŶESO ARBENNIG
- YMA, YN OGYSTAL A
- OOLYFORYDD GWYCH DROB
- LLYN FFAWRN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 5pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYNN
DIODYDDO GYDA SOON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN - YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Crefftiau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am
eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad
i'r Siop am ragor o wybodaeth.
33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Ysgol Llanllechid

Diolch a Ffarwel

Ar ddiwedd y tymor, cafwyd cyfle i ddiolch i Mrs Angharad Parry Owen am bum mlynedd ar hugain o wasanaeth clodwiw i Ysgol Llanllechid. Cyflwynwyd llu o anrhegion i Mrs Parry Owen yn neuadd yr ysgol i ddiolch iddi am ei gwaith a'i gwasanaeth i Ysgol Llanllechid. Dymunwn bob dymuniad da i chi yn ystod y bennod newydd yn eich hanes ac i'r dyfodol.

Sioe Nadolig – Cynllwyn Canslo'r Nadolig

Cafodd y gynulleidfa gref yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen eu cludo yn ôl mewn amser i ddechrau'r ganrif ddiwethaf ar y noson hon ym mis Rhagfyr. Dosbarthiadau Mrs Marian Jones, Mrs Nerys Tegid, Mr Stephen Jones a Mr Huw Jones oedd yn perfformio, ac roedd hon yn sioe wreiddiol, wefreiddiol, wedi ei seilio yng nghyfnod Streic Chwarel y Penrhyn yn y flwyddyn 1901.

Dilyn hynt a helynt un teulu penodol oedd yr edau oedd yn gwau drwy'r cyfan, ac roedd hi'n ofynnol i'r teulu bach hwnnw feddwl sut i oresgyn sefyllfaoedd anodd, heriol oedd yn eu hwynebu; sefyllfaoedd real o'r cyfnod – e.e. y ferch hynaf yn canu yn y côr merched gan deithio ar hyd a lled Prydain er mwyn codi arian; y tad yn symud i dde Cymru er mwyn chwilio am waith yn y pyllau glo; a'r ferch oedd yn cwrdd â ffrindiau newydd mewn ysgol newydd ac yn gorfod symud i'r ysgol honno oherwydd y sefyllfaoedd oedd yn codi. Ac yn gysgod ar y cyfan oll roedd gorchymyn ffug yr Arglwydd Penrhyn i ganslo'r Nadolig.

Cafwyd perfformiadau arbennig gan yr holl blant – yn geirio yn glir ac yn actio a chanu hyd eithaf eu gallu! Gwelwyd disgyblion oedd wedi dechrau yn Ysgol Llanllechid yn dair mlwydd oed, â dim gafael ar yr iaith Gymraeg, yn perfformio yn hollol huawdl yn yr iaith.

Noson wefreiddiol yn wir, a chymaint o bobl yn cysylltu gyda'r ysgol i ganmol y safon. Diolch i'r staff a'r plant am eu gwaith caled ac i'r rhieni am eu cymorth a'u cefnogaeth. Bydd y sioe hon yn aros yn ein cof am amser maith, a pha ffordd well o ddysgu'r disgyblion am eu hanes nag actio'r cymeriadau, a throedio ar hyd eu llwybrau. Wrth gwrs, roedd y sgrïpt a geiriau'r caneuon yn gwbl wreiddiol! Dyna beth yw dawn!

Cyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin

Roedd y rhieni wedi dotio clywed a gweld y plantos bach yn perfformio, ac roedd pawb yn synnu a rhyfeddu wrth weld plant

mor ifanc yn cofio eu geiriau wrth lefaru, ac yn ei morio hi! Diolch i Anti Debbie a'i thîm am fod mor weithgar ac am eu gwaith caled.

Cyngerdd Nadolig Dosbarth Meithrin

Tro'r Dosbarth Meithrin oedd hi wedyn, llond llwyfan ohonyn nhw, yn trïo eu gorau glas, ac yn edrych yn ddigon o ryfeddod yn eu gwisgoedd! Diolch i Ms Hâf a'i thîm am y wledd!

Cyngerdd Nadolig Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1

Bu dosbarthiadau Ms Elen Evans a Mrs Parry Owen yn torchi llewys er mwyn perfformio o flaen llond neuadd o rieni a chyfeillion yr ysgol. Gwledd arall!

Cyflwyniad Drama'r Geni

I Gapel Carmel aeth dosbarthiadau Mrs Wilson, Mrs Williams a Mrs Bethan Jones i actio stori'r Geni, a chanu carolau traddodiadol a llwyddwyd i greu naws Nadoligaidd hyfryd. Diolch i Mrs Helen Williams am ei chefnogaeth ac am ei chymorth parod pob amser.

Gwasanaethau Boreol

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am ddod i mewn atom yn rheolaidd ar gyfer cynnal gwasanaethau boreol, a diolch hefyd i Morgan am ddod yma i ddarllen storïau o'r Beibl yn y gwahanol ddosbarthiadau.

Gweithgareddau Amrywiol

Cafwyd toreth o weithgareddau amrywiol; gormod o lawer i ni eu rhestru yma, ond digon yw dweud i'r disgyblion gael ystod helaeth o wahanol brofiadau yn ystod bwrlwm y Nadolig.

Taith i Ynys Môn

Cafodd dosbarth Mrs Marian Jones fore hynod greadigol pan aethant i 'Weithdy Crefftâu Nadolig' yn Oriel Môn, Llangefni. Bu'r disgyblion yn brysur iawn drwy'r bore yn creu pob math o addurniadau lliwgar a deniadol. Yna, yn y p'nawn, aethpwyd ati i ymhél â gweithgareddau map yng ngerddi Plas Newydd. Roedd rhaid dilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus a darllen y map yn gywir er mwyn cwblhau'r daith ar hyd y llwybr. Gwelsom ryfeddodau lu, yn ogystal â golygfeydd godidog o fynyddoedd Eryri.

Cyfarfod Sion Corn

Diwrnod i'w gofio oedd dydd Iau yr 8fed o Ragfyr i blant y dosbarth Derbyn! Dyma'r diwrnod pan aeth y plant ar y trên i weld Sion Corn! Cafwyd taith yn gyntaf ar hyd

Llyn Padarn yn Llanberis, ac wrth i'r trên nesáu at yr Orsaf a oedd wedi haddurno'n Nadoligaidd, dechreuodd y plant gyffroi a chanu "Pwy sy'n dŵad dros y bryn?" ac yno'n wir, roedd Sion Corn yn aros i'w cyfarch. Roedd y plant wedi gwirioni cyfarfod Sion Corn, a oedd yn hynod o glên a charedig!

Yng nghanol yr holl rialtwech, cafodd pob disgybl gyfle i gyfarfod Sion Corn yn yr ysgol, gwledda a dawnsio yn y partïon, ac wedi hynny, daeth yn ddiwedd tymor yn chwap, a chyfle i drefnu Nadolig ar ein haelwydydd!

Dathlu ein Cymreictod

Braint oedd croesawu Bardd Plant Cymru, Anni Llŷn atom ynghyd a'i chymar, Tudur. Cafwyd diwrnod o farddoni, chwarae gemau geiriol a dysgu sut i gloccio! Brwdfrydedd a bwrlwm yn wir! Diolch o galon!

Pantomeim Blodeuwedd

Pleser pur oedd cael mynd i Pontio i fwynhau pantomeim Blodeuwedd!

Bore Coffi Nadolig

Diolch yn fawr i'r Pwyllgor ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r Bore Coffi yn Neuadd Ogwen. Byddwn yn trefnu Ras Moel Wnion y tymor hwn a'r Bingo Pasg blynyddol ar ddiwedd y tymor. Diolch i bawb sy'n gweithio'n galed i gefnogi'r ysgol mewn cymaint o wahanol ffyrdd er budd ein disgyblion.



Y Bore Coffi

Ysgol Pen-y-bryn



Raslas Bach a Mawr
Gorffennwyd y tymor gyda sioe Raslas Bach a Mawr yn Pontio. Braff oedd gweld Syr Wymff a Plwmsan yn nôl

yn ein diddanu! Mwynhaodd y plant y sioe yn fawr a chafwyd sypreis pan ymddangosodd Mrs Lloyd ar y llwyfan er mwyn datgelu pwy oedd yr un euog.

Sioe Nadolig
Cafwyd Sioe Nadolig hynod lwyddiannus eto eleni – Pantolig. Perfformiodd y plant gyd yn wirioneddol wych! Roedd Cian, Cai a Martha werth eu gweld fel y tair chwaer hyll a Grace fel y fam gas yn trio cadw trefn arnynt. Ac roedd Anest yn Sindarella heb ei hail. Diolch o galon i bawb am ddod ac am eich cefnogaeth.

Cinio Nadolig/Achub y Plant
Ar Ragfyr 9fed, cafodd pawb cinio Nadolig gwerth chweil gan Anti Sandra a staff y gegin – diolch yn fawr! Ac roedd pawb yn edrych yn hyfryd yn eu siwmperi Nadolig. Casglwyd £111.15 i Achub y Plant (Save the Children). Diolch yn fawr, blant!

Cyngor Cymuned Bethesda

Dyma rai materion y bu aelodau'r Cyngor yn eu trafod dros y misoedd diwethaf:-

Treuliwyd llawer o amser yn trafod y posibilrwydd o Drosglwyddo Asedau a Gwasanaethau oddi wrth Gyngor Gwynedd i'r gymuned leol, mewn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Ogwen, mewn sawl gweithgor ac yng chyfarfodydd misol y Cyngor. Eisoedd fe dderbyniodd y Cyngor y cyfrifoldeb dros y biniau halen, ac am y flwyddyn o fis Ebrill nesaf byddwn yn rhannu'r gost o gadw'r toiledau cyhoeddus yn agored. Ymhlith yr amrywiol asedau a chyfrifoldebau sydd eto i benderfynu arnynt mae'r Llyfrgell a Chanolfan Cefnfaes!

Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i weld maes parcio yn cael ei adeiladu yn y Gerlan, ac wedi bod yn trafod y broblem parcio yno ers peth amser bellach. Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Gerlan ar 20 Hydref 2016, mae'r Cyngor wedi penderfynu symud ymlaen gyda'r camau nesaf, sef gofyn i rhywun annibynnol a di-duedd baratoi cynllun dichonoldeb. Bydd angen cynllun busnes, prisiô'r tir ac yn y blaen!

Yn dilyn trafodaethau gweddol faith,

mae'r ffordd yn glir i'r Cyngor godi cysgodfan bws ar y palmant ger siop SPAR.

Bu'r Cyngor yn cwyno am gyflwr Ffordd Hen Barc, ac fe lanwyd y tyllau! Ond nid yw'r Cyngor yn hapus ar hyn. Bydd ein cais i ail wynebu'r ffordd yn cael ei ystyried gan Gyngor Gwynedd yn y flwyddyn ariannol nesaf!

Mae'n arfer gan y Cyngor i dderbyn ceisiadau gan fudiadau i ddod i annerch ein cyfarfodydd o bryd i'w gilydd, ac yn ddiweddar fe groesawyd yr Heddlu (adrodd am eu gwaith yn yr ardal), Mr. Arfon Hughes, Uwch Hwylusydd Tai Gwledig (i ofyn am i'r Cyngor gyd-wethio i geisio diwallu yr angen lleol am dai fforddiadwy), a hefyd gynrychiolwyr blith o "Bethesda Litter Pickers" (ynglyn â sbwriel ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol).

Goleuadau Nadolig, cystadleuaeth ffenest siop Nadolig orau, gorymdaith a chyngerdd Gwyl Ddewi, rhoddion ariannol i gefnogi mudiadau a chymdeithasau lleol. Dyna enwi dim ond ychydig o bethau y bu, ac y mae'r Cyngor ynglyn â nhw.

Neville Hughes.
Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriaau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

SAMARIAID
Mac
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Sioe Nadolig Cyw 2016

ANNWYL OLYGYDD

Gai fanteisio ar eich tudalennau i ddiolch i bawb ddaeth i Sioe Nadolig Cyw yn Neuadd Ogwen ychydig cyn y Nadolig. Roedd hi’n wych gweld dros 1,000 o blant, rhieni ac athrawon yn bresennol. Ar ran Cyw, Huw, Catrin, Dona Direidi, Seren a Lobs, heb anghofio Sion Corn wrth gwrs, ddiolch i chi am y croeso cynnes, yr hwyl a’r gweiddi.

Gan obeithio eich gweld yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont, Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn neu wrth gwrs Nadolig nesaf.

Yn gywir iawn,
Gwyn Williams
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
S4C

Gwasanaeth Archifau Gwynedd

ANNWYL OLYGYDD

Os ydi darllenwyr Llais Ogwan erioed wedi meddwl pa fath o ddeunydd sydd ar gael yn Archifdy Caernarfon wel, mae cyfle iddynt ddarganfod hynny drwy fynychu un o’m sesiynau blasu. Mae sesiynau blasu wedi eu trefnu ar gyfer dydd Sadwrn y 21ain o Ionawr 2017. Bydd sesiwn yn cael ei gynnal yn Gymraeg yn y bore (11-1) ac yn Saesneg yn y pnawn (2-4). I archebu lle ffoniwch (01286) 679 095 neu e-bostiwch Archifau@gwynedd.llyw.cymru

Gyda diolch
Lynn C. Francis
Prif Archifydd

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes
600853

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Peter a Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig ganwyd mab bach, Guto Ifan, i’w merch Catrin a’i phriod Huw ym Mhenisarwaun.

Gwaeledd

Mae’n dda deall fod Eleanor Holland, Perthi, wedi gwella’n ddigon da i ddychwelyd i’w chartref wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Eryri ac yng nghartref Phil a Helen Holland yn Malltraeth. Gobeithio eich bod yn cryfhau Eleanor.

Cofion at bawb arall o’r pentref sydd heb fod yn teimlo’n rhy dda adre, mewn Ysbytai neu Gartrefi Gofal. Rhowch ganiad neu nodyn i ddweud os nad ydych yn teimlo gant y cant.

Aelod newydd o’r teulu

Llongyfarchiadau i deulu Pant Têg ar ychwanegiad i’r teulu. Yn ôl y sôn mae nhw i gyd wedi gwirioni ar y babi bach newydd, sef Efan Elidir, mab bach i Ioan Doyle a’i bartner. Llongyfarchiadau i chi i gyd. Dringwr bach arall i’r teulu!!

Diolch

Dymuna Teresa, 25 Maes Ogwen, David, Michael a’r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt ar achlysur marwolaeth Mrs. Elizabeth Jones, mam Teresa, ar 27 Tachwedd 2016. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdani, ac a gyflwynwyd i Gartref Preswyl Plas Hedd. Mae’r teulu yn ddiolchgar dros ben.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Nos Lun, Rhagfyr 5, bu aelodau’r gangen yn dathlu y Nadolig drwy Ginio Nadolig yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Daeth nifer ardderchog o’r aelodau ynghyd i wleda ac ni siomwyd neb. Roedd y tri cwrs yn fendigedig ac mor braf oedd cael dathlu mor agos i gartref i bob un ohonom. Diolch i staff y Caffi am edrych ar ein holau mor dda ac am baratoi gwledd yn wir.

Yn ystod y noson cafwyd cyfle i gydymdeimlo hefo Margaret a Jen, yn eu profedigaeth o golli Oscar ac yr un modd hefo Myfanwy a gollodd ei mham yn ystod Mis Tachwedd.

Bydd y gangen yn cyfarfod ar Chwefror 5 pan groesewir Carrie Rimes o’r Gerlan,

sydd yn wneuthurwr ‘Caws Moelyci’, a hynny yn Shiloh am 7.30. Croeso mawr i bawb a hoffai fod yn bresennol.

Capel Shiloh

Pnawn Sul, Rhagfyr 18 bu Oedfa Deulu y Nadolig yn Shiloh gyda ieuenctid ac eraill o’r aelodau yn cymryd rhan.

Roedd yn braf a bendithiol cael cyfle i ddod â blas y gwir Nadolig i mewn i’r adeilad a chael clywed yr hen, hen stori unwaith eto eleni ar ei newydd wedd. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i’r rhai fu’n trefnu.

Yn dilyn yr oedfa gwahoddwyd pawb o’r gynulleidfa i ymuno mewn Te Nadoligaidd a dymunwyd Nadolig Llawen i bawb oedd yn bresennol.

Nos Sadwrn, Noswyl y Nadolig, bu Oedfa Gymun am 6 o’r gloch yng ngofal ein Gweinidog, Y Parchedig Gwynfor Williams. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth a’i garedigrwydd i ni yn Shiloh yn ystod 2016.

Oedfaon am 5 o’r gloch

Ionawr
22 Mererid Mair, Caernarfon
29 Dafydd Hughes, Caernarfon

Chwefror

5 Cledwyn Williams, Bangor
12 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
19 Gwynfor Williams, Caernarfon
26 Trefniant Lleol

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Ionawr
22 Cymun Bendigaidd
29 Boreol Weddi

Chwefror

5 Boreol Weddi
12 Cymun Bendigaidd
19 Boreol Weddi
Pob gwasanaeth yn dechrau am 9:30 y.b.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist o farwolaeth Mrs Myra Jones, 21 Erw Fain. Aelod hynaf o’r eglwys yma a wedi gweithio’n galed at ei chynnal dros y blynyddoedd, gan gynnwys bod yn Drysorydd am flynyddoedd. Cynhaliwyd ei hangladd yn Gelli ar Rhagfyr 14eg dan ofal y Parchedig John Matthews. Estynnwn ein cydymdeimlad at Keith a’r teulu yn eu colled.

Te Nadolig

Cawsom Te Nadolig llwyddiannus ar Rhagfyr 10fed. Diolch i bawb wnaeth gefnogi.

Y Te Bach nesaf fydd Te Crempog Dydd Mawrth Chwefror 28ain am 1yp.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Colli Cymdoges

Ar ddydd Mercher, 21 Rhagfyr, yn dawel yn ei chartref, 6. Cae Bach, bu farw Mrs. Valerie Withers. Fel Val yr adnabyddid gan bawb. Nid wyf yn cofio i nemor neb ei galw yn Mrs. Withers, heb sôn am Valerie. Yr oedd yn ffrind cywir i lawer, ac yn gymdoges dda inni i gyd. Bu’n gefnogol i bob peth oedd yn mynd ymlaen yn y pentref, hyd yn oed pan nad oedd ei hiechyd yn caniatáu iddi fod yno’n bersonol. Yr oedd yn gymeriad cryf a chadarn; yn hael ac yn garedig wrth bawb.

Prin flwyddyn yn ôl, cafodd wybod gan yr arbenigwyr ei bod yn dioddef o’r clefyd ‘motor neurone’, salwch creulon nad oes modd gwella ohono.

Wynebodd Val y ddedfryd, a’r misoedd o waeledd, gyda dewrder anhygoel. Yn aml, poenai fwy am y bobl o’i chwmpas nac amdani ei hun, a chadwodd ei hiwmor hyd yn oed yn y cyfnod olaf.

Yr oedd yn benderfynol o aros yn ei chartref tan y diwedd, a chyda’r gofal tyner a dderbyniodd gan ei theulu, ei ffrindiau agos, y Gofalwyr a’r Nyrsus, fe gafodd ei dymuniad.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i’r teulu oll yn eu hiraeth o golli mam, nain a hen-nain arbennig iawn.

Logan

Mae dymuniadau gorau holl drigolion Talybont yn mynd allan i Logan, 16 Cae Gwigin, bachgen bach 8 oed, sy’n derbyn therapi proton a chemo dwys yn Jacksonville, Florida. Mae James, ei dad, a Francheska, ei efaill, yn aros yn yr Unol Daleithiau efo fo. Gweddïwn y caiff adferiad iechyd llwyr a buan.

Anffawd

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss Dilys Williams, chwaer Jean, Bryn Awel, a aeth i Ysbyty Gwynedd ar Nos Galan, yn dilyn codwm cas iawn. Brysiwch wella, Dilys!

Mae Mr. Ifan Hughes, Tŷ Cerrig, hefyd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau am wellhad buan ichi, Ifan!

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Meic a Sandra, 29 Cae Gwigin ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab bach i’w merch, Emma, a’i gŵr, Meurig, o Gerlan ar Ragfyr 22ain. Mae’n dda gennym ddeall bod Emma yn cryfhau bob dydd o dan ofal arbennig Meurig a’r teulu oll.

Croeso mawr i Owain Emyr, a phob bendith ar y teulu bach.

Diolch

Dymuna Barbara Jones, 1. Dolhelyg, ddiolch o galon i’w theulu, ffrindiau a chymdogion oll am y cymorth amhrisiadwy a dderbyniodd ganddynt wedi iddi dorri ei garddwrn ar ddiwedd mis Tachwedd. Mae pethau ar i fyny erbyn hyn, diolch i bawb!

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Gari a Susan Casey, a’r teulu, 20 Cae Gwigin. Bu farw mam Gari, Mrs. Vera Griffiths, Maes y Garnedd, Bethesda, yn Ysbyty Eryri ar 5 Ionawr.

Capel Bethlehem

Oedfaon
Ionawr 22: Gweinidog
Ionawr 29: Parchg. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan
Chwefror 5: Parchg. Gwenda Richards, Caernarfon
Chwefror 12: Gweinidog

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Oedfa Nadolig Deuluol

Cafwyd oedfa fendithiol brynhawn Sul, 18 Rhagfyr, yng nghwmni rhai o blant yr Ysgol Sul a’n gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Gwnaed casgliad o £105.00 tuag Apel Nadolig Cymorth Cristnogol. Mwynhawyd te yn y festri yn dilyn yr oedfa.



Ysgol Sul
Ail-ddechreuwyd ar 15 Ionawr am 10.00 y.b.

Bwrlwm

Mae croeso i bawb ymuno â ni yn ein cyfarfodydd anffurfiol bob yn ail ddydd Iau rhwng 2.15 a 3.45. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Ionawr.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon ym Methlehem ar nos Fercher, 26 Ionawr am 7 o’r gloch. Bydd hwn yn gyfarfod arbennig i ni ym Methlehem oherwydd bydd ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard yn derbyn llywyddiaeth y Cyfundeb am y ddwy flynedd nesaf.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Miss Dilys Williams yn dilyn codwm arall ym Mhlas Ogwen.

Cyfarchion

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn dymunwn yn dda i’n haelodau oll, yn arbennig y rhai nad ydynt yn mwynhau yr iechyd gorau!

Eglwys St. Cross

Marwolaeth
Ar y 21ain o Ragfyr, bu farw Val Withers yn ei chartref, wedi iddi ddioddef salwch am rai misoedd.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys St. Cross, ac yn dilyn yn yr amlosgfa, o dan arweiniad y Parchedig John Matthews, a’r Darllenydd Lleyg, Judith Page. Geraint Gill oedd wrth yr organ.

Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwys at y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi Nadoligaidd ar y dydd Mawrth cyntaf o’r mis. ’Roeddem yn falch o weld cynifer wedi dod i fwynhau’r danteithion, a diolch i Gerddwyr Bethesda am ein cefnogi drwy’r flwyddyn.

Cynhelir y bore coffi nesaf ar ddydd Mawrth, 7ed Chwefror am 10:30 yn Ysgoldy Maes y Groes. Croeso cynnes i bawb.

Dymuniadau

Anfonwn ein cofion at Phyllis Davies sy’n gwella’n raddol gyda’r mab a’r teulu yn Newark. Edrychwn ymlaen at ei gweld gartref yn fuan.

Pob dymuniad da am wellhad buan i aelodau eraill sydd wedi bod yn cwyno yn ystod y mis.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor
LL57 4HU ☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái,
Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Cefn Gwlad

Daeth Rhaglen Mis Rhagfyr o Fferm Ffridd, Llandygái. Bu Dai Jones a’i griw yn dilyn Michael Jones a Gwawr o gwmpas eu gwaith ar y fferm, a Bedwyr bach yn gwenu yn y cefndir.

Cinio Dolig

Aeth criw ohonom o’r pentref am ginio Dolig i’r Clwb Criced.

Ymgartrefu

Croesawyd dau deulu newydd atom. Un cwpwl, a teulu o bump sy’n cynnwys tair merch – maent wedi treulio ugain mlynedd yn Tsieina.

Dymuniadau

Dymuniadau gorau i Norma Parry sydd yn cael llawdriniaeth yn Gobowen yn ystod Mis Ionawr.

Dymuna Eirlys a Iona, gohebwyr yr ardal,

Flwyddyn Newydd Dda i bawb. Gadewch iddynt wybod am unrhyw newyddion.

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Gweithgareddau’r Nadolig 2016 Eglwys Llandygai

Cynhaliwyd ein gwasanaeth traddodiadol “Naw Llith a Charol” yng ngolau kannwyll ar Rhagfyr 18ed. Y darllenwyr oedd Liz Bestwick, Huw Pritchard, Edmond Douglas Pennant, Gwenan Llewelyn Jones, Y Chwaer Julian, Morwena Bean, Janette Roberts, Ann E. Williams a’r Ficer, Y Parchedig John G. Matthews. ‘Roedd yr eglwys yn edrych ar ei gorau a diolch o galon i’r holl wirfoddolwyr a fu’n addurno’r adeilad ar gyfer y Nadolig ac i’n organydd Geraint Gill am ei unawd “The First Mercy” gan Peter Warlock ac am ei gyfeiliant.

Ar Noswyl y Nadolig daeth cynulleidfawr eto i Sant Tegai ar gyfer yr offeren hanner nos. Y darllenwyr oedd Edmond Douglas Pennant a Huw Llewelyn Jones ac unawd arall gan Geraint Gill.

Diolchiadau Hanner Marathon Conwy Hydref 2016

Dymuna Huw Llewelyn Jones ddiolch i bawb a fu yn ei gefnogi i redeg y ras Hanner Marathon yng Nghonwy.

Codwyd dros £1,200 i Gronfa Atgyweiro Sant Tegai a £615 i’r elusen “Parkinsons UK” ar lein.

Codi Arian Ionawr 2017 Raffl Santes Dwynwen a Bingo Ionawr 24ain

Ym mis Ionawr gwerthir tocynnau Raffl Santes Dwynwen a chaiff y tocyn buddugol ei dynnu ar Ddiwrnod y Santes ar Ionawr 25. Y brif wobr fydd potel o champagne ac amryw o wobrau deniadol eraill!

Ar nos Fawrth Ionawr 24ain am 7 o’r gloch cynhelir Noson Bingo ychwanegol er budd yr Eglwys. Bydd croeso cynnes i bawb a lluniaeth ysgafn yn ystod yr egwyl. Dewch i gael hwyl a phrofiad unigryw Bingo Llandygai!! Pauline a Raymond fydd yn galw’r rhifau.

Cyfarchion y Flwyddyn Newydd

Blwyddyn Newydd Dda i aelodau yr eglwys, pentrefwyr Llandygai ac i ddarllenwyr y “Llais”. Dymuniadau gorau yn arbennig i blwyfolion sydd yn yr ysbyty neu yn disgwyl triniaeth. Rydym yn dymuno gwellhad buan i’r Parchedig J. Aelwyn Roberts, cyn-Ficer Llandygai ac i Hefina Chamberlain, cyn-Warden yr eglwys – mae’r ddau wedi treulio’r Nadolig yn yr ysbyty ym Mangor.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Ennill gradd

Llongyfarchiadau i Meghan Davies, wyres Glanfor a Gwenda Davies, Bythynnod Cilfodan, ar ei llwyddiant ym Mhrifysgol Stirling, Yr Alban. Enillodd Meghan radd Bagloriaeth gydag Anrhydedd yn y Gyfraith a dymunwn yn dda iddi yn ei gyrfa. Mae’n ferch i Howard Davies sydd wedi byw yn yr Alban ers blyneddau ac anfonwn ein cofion ato yntau a’i deulu ar ddechrau blwyddyn fel hyn a hynny ar achlysur mor hapus.

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Llais Ogwan

Cwmni Drama'r Llechen Las,
Clwb Drama Crawia a Neuadd Ogwen
yn cyflwyno

Bali Wali Honco

PANTO newydd sbon i'r teulu cyfan

"Mae'n hollol bonecys!"

Ionawr 20fed, 7pm
Ionawr 21ain, 2pm
yn
Neuadd Ogwen, Bethesda
Oedolion £6, Plant £3

Tocynnau ar gael o Siop Ogwen
ffôn: 01248 208485
gwefan: www.neuaddogwen.com

Cyfleusterau hyfforddi gymnasteg newydd i blant a phobl ifanc yn agor yn y dyffryn

Mae Gwynjim yn glwb gymnasteg sydd â'i wreiddiau ym Mangor ond ar 7 Ionawr 2017, symudodd y clwb i'w gartref newydd ar gyrion Bethesda. Bydd dros 500 o blant rhwng 4 a 14 oed yn cael hyfforddiant sgiliau gymnasteg mewn adeilad sydd newydd gael ei addasu. Yn yr adeilad hwn bydd llawr â sbrings, barrau gymnasteg anghymesur, barrau paralel, trac rhedeg a rollo, a llawer mwy. Bydd pwyslais mawr yn cael ei roi ar hyfforddi hyfforddwyr a meithrin y genhedlaeth nesaf o blant a phobl ifanc i ddisgleirio ym maes gymnasteg yng ngogledd Cymru. Gwnaed yr ail-leoli yn bosibl drwy nawdd grantiau gan Magnox Wylfa, Chwaraeon Cymru a nifer o fusnesau lleol.

Aeth Gwyn ac Esther Owen, o Fangor, ati i sefydlu Gwynjim yn 2012 am eu bod wedi cael trafferth cael lle i'w plentyn canol, Ifan yn unrhyw un o'r clybiau lleol. Roedd dwy flynedd o restrau aros felly penderfynodd Gwyn, athro chwaraeon mewn ysgol uwchradd, i gynnal sesiwn ar gyfer Ifan a'i ffrindiau.

Esboniodd Esther, "Wnaethon ni erioed feddwl y byddai cymaint o ddiddordeb ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r clwb wedi mynd yn fwy a mwy poblogaidd. Erbyn hyn, mae 350 o blant yn hyfforddi gyda ni bob wythnos ac mae gennym restr aros o 150 o blant sy'n awyddus i gymryd rhan."

Mae'r clwb wedi bod yn llogi neuaddau chwaraeon mewn ysgolion uwchradd lleol ac mae tîm o hyfforddwyr lleol wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi. Ond, yn sgil y galw am le yn y clwb a'r cyfyngiadau wrth logi neuaddau chwaraeon ysgolion, penderfynodd Gwyn ac Esther chwilio am adeilad a chymorth ariannol i greu cyfleuster pwrpasol. Mae'r

uned ar stad Coed y Parc wedi cael ei thrawsnewid yn neuadd gymnasteg pwrpasol, diolch i gefnogaeth adeiladwyr lleol, rhieni a hyfforddwyr.

Mae Gwyn Owen yn teimlo'n gyffrous ynghylch yr hyn y bydd y gampfa newydd yn ei gynnig i bobl ifanc o bob cwr o Wynedd. "Mae'r gefnogaeth ariannol ac ymarferol gan bobl wedi bod yn aruthrol. Mae rhieni wedi bod yn cefnogi gweithgareddau codi arian yn ogystal â chodi brwshys paent i'n helpu ni i greu cyfleuster gwych. Mae cael ein hadeilad ein hunain yn rhoi cyfle i ni hyfforddi rhagor o bobl ifanc ond hefyd, gyda chymorth nawdd grant gan Magnox Wylfa, Chwaraeon Cymru a nifer o noddwyr eraill, rydym wedi llwyddo i fuddsoddi mewn offer newydd er mwyn i'r plant a phobl ifanc sy'n dod atom allu datblygu mwy o sgiliau.

Yn y gampfa newydd bydd lle i'r rhieni ymlacio wrth i'w plant gael hyfforddiant a bydd cyfleoedd i sefydliadau eraill ddefnyddio'r cyfleusterau. Mae'r uned yn cynnwys ystafell gyfarfod, gyda thaflunydd, peiriant coffi a WiFi, a lolfa gyfforddus i'r rhieni, cefnogwyr, hyfforddwyr ac ati.

Mae cynnydd mawr iawn wedi bod mewn gymnasteg yng Nghymru ers 2011. Mae Gymnasteg Cymru, y corff llywodraethu cenedlaethol, wedi gweld twf o 173% yn nifer yr aelodau, 16,000 o enethod a 4,000 o fechgyn yn cymryd rhan yn rheolaidd yn y maes mewn 97 o glybiau. Y rheswm am y cynnydd hwn yw'r llwyddiant rhyngwladol nas gwelwyd erioed o'r blaen ym maes gymnasteg yng Nghymru a Phrydain ar lwyfan rhyngwladol. Yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014 cafodd Cymru lwyddiant eithriadol, gan ennill 10 medal mewn gymnasteg allan o'r 36 medal a enillodd Tîm Cymru.



Erin Griffiths
(Ysgol Llanllechid)
ar y diwrnod
lansio



Izzy Forte (Ysgol Tregarth)
yn y Gampfa newydd

Ysgol Bodfeurig

Wiwerod Coch

Mae ymgyrch ar hyn o bryd i ail-gyflwyno wiwerod coch i ardal Dyffryn Ogwen. Fel rhan o'r ymgyrch yma mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda Holly – Ceidwad Wiwerod Coch Bangor ac Ynys Môn i wella ein dealltwriaeth am y creaduriaid yma. Cyn y Nadolig daeth Holly i'r ysgol i greu bwydwyr ar gyfer y wiwerod. Bu pawb yn brysur yn casglu poteli ac yna'n eu haddurno yn lliwgar i'w rhoi yn eu gerddi. Mae plant hynaf yr ysgol hefyd wedi mynd ati i lunio lluniau i'w rhoi ar ochor bwydwyr fydd yn cael eu gosod mewn coedwigoedd lleol. Bydd Holly yno'n rhoi camera fideo ynddynt a cawn weld os fydd y wiwerod coch yn dod yno i fwydo. Rydym yn falch o fod yn rhan o'r prosiect cyffrous yma ac yn gobeithio y bydd y niferoedd o wiwerod coch yn yr ardal yn cynyddu.

Tylluanod

Fel rhan o'u thema 'Pan af i gysgu' bu dosbarth Idwal yn edrych ar y creaduriaid sy'n effro pan fyddwn ni'n cysgu. Un o hoff creaduriaid nos y dosbarth yw'r tylluanod felly credwch fi roedd pawb wedi cyffroi pan ddaeth tylluanod i ymweld â'r ysgol! Daeth tylluanod o bob math a maint o Warchodfa Tylluanod Gogledd Cymru a cafodd pawb gyfle i afael ynddynt a dysgu mwy am sut mae'r warchodfa yn gofalu amdanynt. Casglodd yr ysgol arian tuag at y warchodfa fydd yn eu helpu i barhau â'r gwaith caled.



Tylluanod



Cinio Nadolig

Nadolig Bodfeurig

Cafodd pawb yn Ysgol Bodfeurig Nadolig gwerth chweil gyda llawer o hwyl a sbri. Dechreuodd y dathlu gyda cinio arbennig gan Anti Anwen ac Anti Dana! Yn dilyn y cinio blasus daeth y gwaith caled o ymarfer a pherfformio ein cyngerdd Nadolig. Eleni aethom ar daith bell i Rwsia i gyfarfod Babwshca a'r tri gŵr doeth. Dyna wled a gafwyd yn y Neuadd Goffa wrth i bawb ganu ac actio i ffrindiau a rhieni'r ysgol. Da iawn chi blant am eich gwaith caled a diolch i'r

rhieni am eu cefnogaeth. Ac ar ôl yr holl waith caled daeth yr amser i bawb gael eu gwobrwyo gydag ymweliadau cyffrous. Aeth plant y cyfnod sylfaen i weld y dyn ei hun, Sion Corn, yn Pili Palas tra bo dosbarthiadau Tryfan ac Ogwen wedi cael amser gwych yn gweld panto Blodeuwedd yn Pontio. Profiadau gwych i ddiweddu blwyddyn brysur a llwyddiannus yn yr ysgol. Dymuna staff a plant yr ysgol ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall llawn hwyl a dysgu eleni.



Y tri gŵr doeth

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Bod yn annymunol o flaen mam yr ebol (3)
- 3 Ffrwythau meddal, melyn o'r dwyrain canol (5)
- 7 Ynys y cregyn ger Llanbedr, Meirionnydd (6)
- 8 Rhodio (6)
- 9 Heb staen na chraith, fel petai (11)
- 11 Un dda am stwnsh (5)
- 13 Y bengoch sy'n enwog yn y nofel o Lŷn (5)
- 15 Swnio fel gweithiwr ffeind ar fferm, ond ar chwâl (11)
- 17 Diogi a gwastraffu amser (6)
- 19 Niwed o wywo'r dail (6)
- 20 Rhaid cael dau ben hwn ynghyd i fyw heb angen (5)
- 21 Diod ffrwyth (3)

I LAWR

- 1 Huawdl i hunan ganmol, fel iâr wedi dodwy (7)
- 2 Plismon y gorllewin gwyllt (5)
- 3 Llewyr (3)
- 4 Mae gweilch y pysgod yn dychwelyd iddi'n flynyddol i fagu (7)
- 5 Methu symud na rhyddhau (5)
- 6 Pen galed (8)
- 10 Yn glir a hawdd ei weld a'i ddeall (8)
- 12 Plaen (7)
- 14 Mwy o lawer na'r hyn a awgrymir yn 20 Ar Draws (7)
- 15 I wau ag edafedd (5)
- 16 "---- , ---- dau ddwrn...." Rhigwm i weld p'run gymera i (5)
- 18 Sioe gerdd am ein hemynyddes enwocaf (3)

	1		2				3		4		5	
					6							
7							8					
	9						10					
	11		12				13				14	
	15								16			
17					18		19					
	20								21			

ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2016

AR DRAWS 6 Opera, 7 Ambell, 9 Barn, 10 Efengylwr, 11 Cymoni, 13 Unioni, 15 Crafwr, 17 Ceryddu, 18 Ystlysau, 20 Oedi, 22 Nansi, 23 Wneud

I LAWR 1 Soffa, 2 Seindorf, 3 Llanelli, 4 Caledu, 5 Obry, 8 Llawenydd, 12 Ymryson, 14 Iorddonen, 16 Rysait, 17 Ceudwll/Ceubwll, 19 Lonc, 21 Dodo

Gair bach o eglurhad i gychwyn. Fel y gwelwch, rwyf wedi derbyn dau ateb i 17 I Lawr, sef 'ceudwll' neu 'ceubwll'. Gellir dadlau mai ceudwll wedi llenwi efo dŵr ydi ceubwll, fel mewn nifer o chwareli yn Nyffryn Nantlle. Roedd yr atebion a gafwyd yn eithaf cyfartal ar y ddau ateb. Y gwall a gafwyd gan dri ohonoch oedd 'tawelu' yn lle 'caledu'; cafwyd 'lana' a 'long' yn lle 'lonc'; 'ceruddo' yn lle 'ceryddu' ac 'ysbrusau' yn lle 'ystlysau'.

Dyma'r rhai a anfonodd atebion cywir: Elfed Evans, Karen a Tom Williams, Llanllechid; Gareth William Jones, Bow Street; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bangor; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda. Da iawn chi. Yr un sy'n mynd â'r wobr y tro yma ydi ymgais John a Meirwen Hughes, Cwellyn, 4 Heol Elwy, Abergelle, Sir Ddinbych. Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion erbyn 2 Chwefror, 2017 i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Atebion erbyn 2 Chwefror, 2017 i 'Croesair Ionawr'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Chwaraeon

Pêl-droed

Canlyniadau Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai
Tachwedd 5 : M. Llandygai 0 - Greenfield 3
Tachwedd 19 : Hawarden 6 - M. Llandygai 2. (Goliau - Gavin Owen, David Jones)
Tachwedd. 26 : Amlwch. 1 - M. Llandygai 6. (Goliau - Alwyn Roberts 2, David Jones 2, Jamie Roberts, Steven Tindel.)
Rhagfyr 3: Cyffordd Llandudno 6 - M. Llandygai 3. (Goliau - Ian Owen, Alwyn Roberts, Liam Wilinghan)
Rhagfyr 10 : Clwb Pêl-droed Gaerwen 1 - M. Llandygai 3. (Goliau - Alwyn Roberts 2, Kevin Roberts)
Rhagfyr. 31 : Penmaenmawr 3 - M. Llandygai 2. (Goliau. David Jones. Alwyn Roberts.)

Hwyl Gŵyl San Steffan



Bu brwydr galed o bêl-droed ar gae Dôl Ddafydd ar Ragfyr 26. Bu tîm presennol Pen-y-Brenin yn chwarae yn erbyn yr ‘hen dîm’, ac yn wir i chi fe gafodd y tîm presennol andros o dasg i’w curo. Llwyddodd y ddau dîm i sgorio un gôl yr un ac fe enillwyd y gêm drwy giciau o’r smotyn – gyda’r tîm presennol yn fuddugol. Chwaraewyd y gêm mewn ysbryd da ac fe lwyddwyd i godi dros £500.00 at elusen Alder Hey. Diolch i Claire a staff Pen-y-Brenin am y wledd ar ôl y gêm.



Ail agor y twnnel

A yw’r gwaith i ail agor Tynal Tywyll wedi dechrau? Mae’n ymddangos ei fod ...
Diolch i Arwyn Oliver am y llun.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Y darlithydd yng nghyfarfod Rhagfyr oedd Dilwyn Pritchard, a fu’n olrhain hanes pêl-droed yn Nyffryn Ogwen o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Cafwyd noson ddiddorol dros ben gyda Dilwyn yn cyflwyno toreth o ffeithiau, yn bennaf am Llechid Celts - a Llechid Swifts cyn hynny.

Braf oedd ei glywed yn sôn am rai o’r cymeriadau ac am chwaraewyr a ddaeth i enwogrwydd, megis Gwilym a Bobi Morris ac eraill. Braf hefyd oedd gweld y lluniau o dimau pêl-droed diweddarach o’r Dyffryn, a brafiach fyth oedd sylwi bod amryw o’r chwaraewyr hynny yn eistedd yn y gynulleidfa.

Yn y llun mae Dilwyn ac Alan Davies, gynt o Fynydd Llandygai, yn sgwrsio’n frwd ar ddiwedd y noson.